
Bydd y gwyntoedd yn cynyddu dros 'Gymru gyfan, yn enwedig mewn ardaloedd gorllewinol. Bydd glaw trwm yn cyrraedd ardaloedd y De erbyn hanner dydd, a chawodydd trwm yma ac acw yn y Gogledd a'r Gorllewin.

Mi fydd hi'n parhau'n sych ac yn heulog heddiw, gyda'r tymheredd

yn cyrraedd 16 gradd erbyn y prynhawn. Ond disgwylir i'r tywydd waethygu dros y rhan fwy o Gymru ar ôl iddi nosi, gyda tebygrwydd o law yn ardaloedd y De erbyn saith. Bydd y tywydd yn ddiiflas trwy'r dydd yfory.

Exercise 6

Which forecast would be the best for:

- 1 a Bonfire Night (**Noson Guto Ffowc**) party?
- 2 an afternoon picnic?
- 3 an afternoon **o flaen y teledu**?

Sgwrs **●●**

*Iestyn is trying to break it gently to Dafydd that he has not the slightest intention of attending any committee meetings (**cyfarfodydd pwyllgor**) in the near future*

DAFYDD: Fyddi di yn y cyfarfod pwyllgor yfory?

IESTYN: Os bydd hi'n braf iawn yfory, efallai bydda i yno. Ond os bydd hi'n bwrw, neu'n oer, neu'n gymylog, fydda i ddim eisiau mynd.

D: Fyddi di'n dod i'r cyfarfod nesa ddydd Llun, 'te?

I: Wel . . . os bydd amser 'da fi, fe fydda i yno, ond mae'n bosib bydd ymwelwyr 'da ni. Gawn ni weld.

D: Beth am y cyfarfod cyffredinol blyneddol, 'te. Fyddi di'n bresennol? Mae e . . .

I: Gwaetha'r modd fydda i ddim yn gallu dod. Bydda i'n sâl.

D: Ond dw i heb ddweud 'that ti pryd mae e 'to!

I: Pryd bynnag bydd y cyfarfod, bydda i'n sâl, iawn?

Geirfa

yfory tomorrow

os if

yno there (place not in sight)

nesa next

os bydd . . . 'da fi if I have . . .

posib possible

ymwelwyr (pl.) visitors

blyneddol annual

presennol present; in attendance

gwaetha'r modd unfortunately

sâl ill

dw i heb ddweud 'that ti I haven't

told you

(e)to yet

Gawn ni weld We'll see
cyffredinol general

pryd bynnag whenever

Exercise 7

Match Iestyn's excuses to the various meetings:

- (a) annual general meeting (i) Iestyn's family are coming round
(b) committee meeting tomorrow (ii) Iestyn anticipates ill health
(c) committee meeting on Monday (iii) Iestyn is worried about the weather

Making plans and expressing intentions for the future

Na i'... + VN is a common way of saying that you are going to do something. It is actually the inflected future (Lesson 10) of **gwneud** *do*, and using it rather than the more neutral future **Bydda i'n** + VN is a way of expressing definite intent. Compare:

Bydda i'n sgrifennu atat ti ar ôl y Nadolig
I'll be writing to you after Christmas [i.e. you'll be getting a letter from me]

Na i sgrifennu atat ti ar ôl y Nadolig
I'll write to you after Christmas [i.e. that's a promise]

The 1st pers. pl. form **nawn ni** *we will do* is useful in the phrase **Be' nawn ni?** *What shall we do?*

Be' nawn ni gyda'r plant dros hanner tymor?
What shall we do with the children over half-term?

Time expressions

You should learn the following important words and phrases:

	<i>yesterday</i>	<i>today</i>	<i>tomorrow</i>
	ddoe	heddiw	yfory
(morning)	bore ddoe	bore 'ma	bore fory
(aftn.)	pnawn ddoe	pnawn 'ma	pnawn yfory
(night)	neithiwr	heno	nos yfory

Heddiw *today* is pronounced **heddi** in many parts of Wales. **Pnawn** *afternoon* is spelt **prynhawn** in written Welsh, but not usually so pronounced.

The larger units of time (**amser**) are:

dydd day
wythnos (f) week
mis month
blwyddyn (f) year

These can be combined with **'bob** and **trwy'r**:

bob dydd every day	trwy'r dydd all day
bob wythnos every week	trwy'r wythnos all week
bob mis every month	trwy'r mis all month
bob blwyddyn every year	trwy'r flwyddyn all year

Also **bob amser** *every time; always* **trwy'r amser** *all the time*

... **diwetha**, ... **'ma** and ... **nesa** are used after the noun as follows:

<i>last ...</i>	<i>this ...</i>	<i>next ...</i>
wythnos diwetha	wythnos 'ma	wythnos nesa
mis diwetha	mis 'ma	mis nesa

Similarly with **tro** *time* (in a sequence): **tro diwetha** *last time*, etc.

Gobeithio byddwch chi'n llwyddiannus tro nesa
I hope you'll be successful next time

But 'year' has special words for 'last ...' and 'this ...':

llynedd **eleni** **flwyddyn nesa**

Yn ni ddim yn mynd eleni, ond efallai byddwn ni'n mynd flwyddyn nesa

We're not going this year, but perhaps we'll go next year

Days of the week

Dydd Llun	Monday
Dydd Mawrth	Tuesday
Dydd Mercher	Wednesday
Dydd Iau	Thursday
Dydd Gwener	Friday
Dydd Sadwrn	Saturday
Dydd Sul	Sunday

To say 'On ...' a day, simply use SM: **Ddydd Mawrth** on Tuesday. Words like **bob**, **diwetha** etc. can be used in the normal way with days of the week.

Mae'n dod fan hyn bob dydd Mercher fel arfer, ond fydd e bant ddydd Mercher nesa


He comes here every Wednesday usually, but next Wednesday he'll be away

If you want to say 'Tuesday night', you change **Dydd** into **Nos** **Nos Fawrth**, and so on.

Mi fyddwn ni'n gweld chi i gyd Nos Lun, 'te
We'll see you all on Monday night, then

Exercise 8

Read this postcard, and then answer the questions in English:



- 1 What was the weather like in Llangollen at the weekend?
- 2 How long are Fiona and Desmond staying in the area?
- 3 What will the weather be like on Thursday?
- 4 Where are Fiona and Desmond staying in Llangollen?
- 5 What has Jane got to do?
- 6 What was the weather like on Wednesday?

Sgwrs

Dylan and his fiancée Angharad are debating what to do today – stay in or go out?

DYLAN: Be' nawn ni heddiw, 'te?

ANGHARAD: Wel, mae'n dibynnu ar y tywydd, on'd ydy? Beth oedd y rhagolygon?

D: Ansefydlog. Well inni aros gartre, dw i'n meddwl. Mae'r gêm fawr ar y teledu pnawn 'ma, gyda llaw.

A: Ond dw i eisiau ychydig o awyr iach yn hytrach nag eistedd o flaen y teledu! Beth am fynd i'r dre?

D: O, dim eto! O'n ni yn y dre ddoe, trwy'r dydd!

A: Ond dw i eisiau gwneud y gwaith siopa. Dw i angen dy help, Dylan!

D: O'n i ddim yn helpu llawer tro diwetha.

A: O't ti'n cwyno tro'r amser, 'na pam. Ond fyddi di ddim yn cwyno tro 'ma, na fyddi di? Bydd y gêm fawr ar y teledu eto heno, on' bydd?

(Dylan knows Angharad is right)

D: Bydd.

(He tries a last desperate change of tack)

Mae'n rhwym o fwrw glaw, timod.

A: Os bydd hi'n bwrw pan fyddwn ni yn y dre, na i brynu ymbarél i ti, iawn?

D: Iawn.

A: Awn ni, 'te.

Geirfa

be' nawn ni? what shall we do?

dibynnu depend

ansefydlog unsettled

awyr air

iach healthy

yn hytrach na rather than

o flaen in front of

beth am ... + VN what about ...ing?

trwy'r ... all ... (time expressions)

cwyno complain

rhwym o' ... bound to ...

timod y'know

ymbarél umbrella

Placenames and geographical features (II)

The weather may not always be on your side if you're out and about, but there's always plenty to take your mind off the rain, not

least the names of places you may pass through. We have already had a look at the ubiquitous **Aber-** and **Llan-**; here are some other common elements in Welsh placenames:

topographical features

afon	'river' – the names of rivers themselves also figure prominently in place names.
allt	'cliff'
bryn	'hill'
bwlech	'gap' or 'pass'
cors	'bog'
cwm	'valley' – actually a rounded 'scoop'-type valley; there are various words for 'valley' in Welsh, depending on the type: dyffryn is a broad, flat river-valley; glyn is like the English 'vale', as is ystrad ; pant is a 'hollow'
glan	'bank', 'shore'
llwyn	'grove' – Llwyndafydd .
mynydd	'mountain'
nant	'stream', 'brook' – another very common element in certain parts of Wales.
pen	'top'; 'end'

man-made features

(these words generally occur as first element, often followed by a personal name)

caer	'fortified (originally Roman) settlement' – corresponds to English '-chester', '-burgh' or '-bury' with the same meaning. Caerfyrddin (Carmarthen) 'Merlin's fortress' (Myrddin); Caergybi (Holyhead) 'Cybi's fortress'; Caergaint (Canterbury) 'fortress of Kent (Caint); and, of course, Caer (Chester).
croes	'cross'
gwaun	'meadow'; Waunfawr 'big meadow'
llys	'court'; cwrt also occurs in placenames.
melin	'mill'
pont	'bridge'
rhyd	'ford'
tre(f)	'town'

trees

(most native tree-names in Welsh end in **-en** to signify a single tree, and drop this ending to make a 'collective' name for the species – so **derwen** is an oak tree, while **derw** means 'oak', as in 'a field of oak')

coed	'wood' – Trawsgoed 'Crosswood'
bedw	'birch' – Pantfyedwen 'Birch-hollow'
celyn	'holly' – Llwyncelyn 'Hollygrove'.
derw	'oak' – Derwenlas 'Greenoak'
onn	'ash' – Bancyronnen 'Ashhill(ock)'

Two adjectives, **isa(f)** 'lowest' and **ucha(f)** 'highest' correspond to 'Lower ...' and 'Upper ...', usually of more localised features.

Here are some well-known places interpreted:

- Betws-y-Coed** – **betws** *prayer-house* + **y** + **coed** – 'prayer-house in the woods'
- Brynmawr** – **bryn** + **mawr** *big* – 'big hill'
- Llangollen** – **llan** + **collen** *hazel-tree* – 'Hazelchurch'
- Llanuwchllyn** – **llan** + **uwch** *higher* + **llyn** *lake* – 'church above the lake'
- Nantyglo** – **nant** + **y** + **glo** *coal* – 'Coalbrook'
- Penrhyndeudraeth** – **penrhyn** *headland* + **dau** *two* + **traeth** *beach* – 'headland of the two beaches'
- Penygraig** – **pen** + **y** + **craig** *rock, crag* – 'top of the rock'
- Pwllheli** – **pwll** *pool* + **heli** *salt water* – 'saltwater pool'
- Rhosllannerchrugog** – **rhos** *moor, heath* + **llannerch** *glade* + **grugog** *heathery* – 'moor of the heathery glade'
- Tonyrefail** – **tôn** *tone, sound* + **y** + **gefail** *smithy* – 'sound of the smithy'

Bear in mind, finally, that many Welsh towns, especially the larger ones, have co-existing English names – either anglicised versions of the original Welsh name (**Caerdydd** *Cardiff*, **Caerfyrddin** *Carmarthen*, **Dinbych** *Denbigh*) or in many cases completely different names – **Aberteifi** *Cardigan*, **Abertawe** *Swansea*, **Aberdaugleddau** *Milford Haven*, **Yr Wyddgrug** *Mold*, **Aberhonddu** *Brecon*, **Y Trallwng** *Welshpool*. And in fact many of the larger English towns are also known by different names in Welsh – remember that a form of Welsh was spoken all over England long before the Angles and Saxons brought their language over.

8 Gwneud trefniadau

Making arrangements

In this lesson you will learn how to:

- tell the time
- make appointments on the phone
- talk about pains and illnesses
- cope with language problems

Sgwrs

*Nia phones to make an appointment to see the doctor (y meddyg).
The receptionist (y derbynnydd) answers the phone*

DERB.: Meddygfa. Bore da.

NIA: Bore da. °Alla i wneud apwyntiad i °weld rhywun heddiw?

D: Yn ni'n °brysur iawn bore °ma. Ga i °ofyn beth yw'r broblem?

N: Mae annwyd trwm arna i. °Ellwch chi °drefnu i mi °weld un o'r meddygon am °bum munud?

D: Galla, siwr o fod.

(looks in the appointments book)

Mae Dr Davies yn rhydd am °bedwar. Ydy hynny'n °gyfleus?

N: Ardderchog. Diolch yn fawr.

D: Dim o °gwbwl. Hwyl nawr.

N: Hwyl.

Geirfa

meddygfa (f) surgery

apwyntiad appointment

rhywun someone

annwyd cold (illness)

trefnu arrange

meddyg (-on) doctor

prysur busy
gofyn ask

cyfleus convenient
ardderchog excellent

Sgwrs

Nia arrives later at the surgery

DR D: Pnawn da. Beth sy'n bod arnoch chi, 'te?

NIA: Mae annwyd trwm arna i.

DR D: Oes unrhywbeth arall yn bod? Pen tost, cfallai? Neu °wres?

N: Wel, mac peswch arna i, ac dw i'n teimlo'n flinedig iawn trwy'r dydd. Alla i ddim anadlu drwy nhrwyn, chwaith.

DR D: Ers pryd dych chi'n sâl, felly?

N: O, ers wythnos bellach. O'n i ddim eisiau'ch poeni chi, ond dyw'r annwyd ddim yn gwella, ac mae'n rhaid i mi fod yn ôl yn y gwaith ddydd Iau.

DR D: Beth yw'ch gwaith?

N: Ysgrifenyddes.

DR D: Dych chi'n gweithio gyda pobol eraill?

N: Mae tair onon ni yn yr un stafell.

DR D: Iawn. Ddylech chi ddim mynd yn ôl i'ch gwaith tan wythnos nesa. Ac dw i eisiau'ch gweld chi eto. Dewch i ngweld i tua diwedd yr wythnos.

Geirfa

beth sy'n bod? what's wrong?

pen tost headache

gwres temperature, fever

peswch cough

teimlo feel

flinedig tired

anadlu breathe

poeni [here] bother

rhaid must

tair onon ni three (f) of us

ddylech chi ddim you shouldn't

mynd yn ôl return

... ngweld i ... see me

tua (some time) around

Personal forms of prepositions

Most prepositions in Welsh take verb-like endings when used with pronouns. For example, **ar on** has the following forms:

arna i on me	arnon ni on us
arnat ti on you	arnoch chi on you
arno fe on him	arnyn nhw on them
arni hi on her	

So, while it is fine to say **ar y bwrdd** *on the table*, or **ar Dafydd** *on Dafydd*, if we want to say *on him*, it must be **arno fe** and not **ar fe**. The best approach is simply to learn these sets of forms as you encounter them, or by consulting the grammatical appendix at the back of the book. For now, here are three more sets:

i° *to, for*

i mi/fi to me	inni to us
i ti to you	i chi to you
iddo fe to him	iddyn nhw to them
iddi hi to her	

o° *of, from*

ohona i of me	ohonon ni of us
ohonat ti of you	ohonoch chi of you
ohono fe of him	ohonyn nhw of them
ohoai hi of her	

(These personal forms are also found without the **-ho-** element, i.e. **ona i**, **onat ti**, etc.)

am° (*various meanings*)

amdana i	amdanon ni
amdanat ti	amdanoch chi
amdano fe	amdanyn nhw
amdani hi	

In Colloquial Welsh the 3rd person singular forms ('him' and 'her') of all personalised prepositions often drop the pronoun – so **iddi** for **iddi hi**, **amdano** for **amdano fe**, **arni** for **arni hi**, and so on. All other persons must have the pronoun stated.

Talking about pains and illnesses

Many temporary physical (and mental) states are described using **ar on** – we say not that we have the illness, but that the illness is on us. In most cases you will need the personal forms of **ar** (see above).

Common terms for illnesses which use **ar** are:

annwyd cold	peswch cough
y ffliw flu	y ddannodd toothache
gwres temperature	y frech goch measles

Also used in this way are **syched** *thirst* and **eisiau bwyd** *hunger*:

Mae syched ofnadwy arna i	I'm awfully thirsty
Oes eisiau bwyd ar y plant?	Are the children hungry?

But conditions involving parts of the body + **tost** *sore, painful* use **(gy)da/gan**:

Mae pen tost 'da fi	I've got a headache
Oedd stumog dost 'da hi	She had stomach ache
Oes clust dost 'da ti?	Have you got earache?

Other useful expressions when visiting the doctor or clinic are:

Lle mae'n brifo?	Where does it hurt?
Dw i wedi brifo . . . i	I've hurt my . . .
Mae . . . yn poeni fi	My . . . is bothering me
Dw i eisiau chwydu	I feel sick
Mae mhen yn troi	I feel dizzy
Alla i ddim cysgu	I can't sleep
Alla i ddim anadlu'n iawn	I can't breathe properly
Dw i'n teimlo'n flinedig	I feel tired
. . . o bryd i'w gilydd	. . . now and then
. . . trwy'r amser	. . . all the time

These are the main parts of the body:

pen head	bys (-edd) finger
llygad (llygaid) eye	bawd (bodïau) thumb
trwyn nose	brest (f) chest
clust (-ïau) (f/m) ear	stumog (f) stomach
ceg (f) mouth	cefn back
gwddw neck, throat	coes (-au) (f) leg
ysgwydd (-au) (f) shoulder	penglin (-ïau) (f) knee
braich (breichiau) (m/f) arm	migwrn (migyrnau) ankle
penelin (-oedd) (m/l) elbow	troed (traed) foot
arddwrn (arddyrrnau) wrist	bys troed toe
llaw (dwylo) (f) hand	bol (or bola) belly

Exercise 1

Put the words listed on the right into their correct places in these sentences about discomfort and illness:

- | | |
|--|--------------|
| 1 Mae pen tost _____ fi ers bore 'ma | |
| 2 Oes annwyd _____ ti? | arnyn arnoch |
| 3 Mae syched ofnadwy _____ y plant | 'da arnat |
| 4 Oedd y fflw _____ nhw llynedd | 'da ar |
| 5 Bydd stumog dost _____ ti | |
| 6 Ers pryd mae'r peswch 'na _____ chi? | |

Rhaid 'must', 'have to'

To express obligation you need the noun **rhaid** *necessity* and the preposition **i to**. 'I must go' is phrased in Welsh as:

'(There is)	necessity	to me	(to) go'
(Mae)	rhaid	i mi	fynd

So we have **rhaid**, then **i** + person, then mutated form of the VN to indicate the action that has to be done. The **mae** can be left out, but it can also be extended to **mae'n** – either way it makes no difference.

Rhaid i'r plant 'orffwys	The children must rest
Rhaid iddyn nhw 'orffwys	They must rest
Rhaid i Sioned 'brynu sgidiau newydd	Sioned must buy (some) new shoes
Rhaid iddi hi fod yn ôl erbyn deg	She must be back by ten

Remember that certain pronouns (like **nhw** and **hi** in the examples above), will affect the preceding **i**.

Questions are done by adding **Oes . . . ?** (*Is there necessity . . . ?*):

Oes rhaid i chi fynd mor gynnar?	Must you go so early?
Oes rhaid inni dalu ymlaen llaw?	Do we have to pay in advance?

Does **dim rhaid** means . . . *needn't* . . . (not *mustn't*):

'Sdim rhaid i ti 'boeni am hynny *You needn't worry about that*

'Must not . . .' is done in exactly the same way as 'must', but with **'beidio** in front of the (unmutated) VN. Compare:

Rhaid i ti fynd	You must go
Rhaid i ti beidio mynd	You mustn't go
'Sdim rhaid i ti fynd	You needn't go

Exercise 2

Match the instructions to the places:

- | | |
|--------------------------------------|-----------------|
| 1 Rhaid i chi gadw'ch ci ar dennyn | (a) yr ysbyty |
| 2 Rhaid i chi beidio gofyn am greddy | (b) y llyfrgell |
| 3 Rhaid i chi wadu popeth | (c) y bws |
| 4 Rhaid i chi beidio ysmygu | (d) y dafarn |
| 5 Rhaid i chi ddangos eich tocyn | (e) y parc |
| 6 Rhaid i chi fod yn dawel | (f) y llys |

Dylwn i 'ought to/should'

There is a special inflected verb for 'ought to', 'should':

dylwn i	dylen ni
dylet ti	dylech chi
dylai fe/hi	dylen nhw

In some areas an **-s-** is inserted in these forms after the **-l-**: **dylswn i, dylset ti**, etc. There is no difference in meaning. Because this is an inflected verb, the usual principles regarding mutations and affirmative markers (Lessons 3 and 7) apply:

AFF:	dylai fe	}	he ought to; he should
	ddylai fe		
	fe (/mi) ddylai fe		
INT:	ddylai fe?	}	ought he?; should he?
NEG:	ddylai fe ddim		

As with **rhaid** *must*, **dylwn i** etc. is used with a following VN, which is mutated with AFF and INT, but not with NEG.

Mi ddylwn i 'gysylltu â nhw	I ought to get in touch with them
Ddylwn i 'gysylltu â nhw?	Should I get in touch with them?
Ddylwn i ddim cysylltu â nhw	I ought not get in touch with them

Exercise 3

Cyfieithwch i'r Gymraeg:

- 1 Should we wait here for a minute or two?
- 2 Do you have to complain all the time (*trwy'r amser*)?
- 3 I mustn't forget my bags.
- 4 Ieuan and Sioned ought to swap jobs.
- 5 You shouldn't fuss so much.
- 6 There's no need to remind me.

Geirfa

munud minute	swydd (-i) (f) job
cwyno complain	ffwdanu (make) a fuss
trwy'r amser all the time	'gymaint so much
cyfnewid swap	atgoffa remind

Sgwrs

Emyr has used his contacts in the showbiz fraternity to get hold of some concert tickets. Now he needs someone to go with

EMYR: Wyt ti'n rhydd heno, Siwan?

SIWAN: Efallai. Oes rhywbeth 'da ti mewn golwg?

E: Hoffet ti ddod 'da fi i'r cyngerdd?

S: Pa 'gyngerdd? Pwy sy'n chwarae?

E: Yr Anfarwolis.

S: Dw i ddim yn nabod nhw.

E: Ddim yn nabod nhw!? Maen nhw'n enwog! O'n nhw ar y teledu neithiwr!

S: Iawn, 'te. Ond . . .

(Siwan has a sudden disconcerting thought)

. . . pwy sy'n talu am y tocynnau?

E: 'Ges i ddau 'docyn yn rhad ac am ddim. Mae cariad brawd y gitarydd yn ffrind i rywun o'n i'n nabod yn yr ysgol.

S: O'r gorau. Pryd mae'r cyngerdd yn dechrau?

E: Na i 'alw amdanat ti tua hanner awr wedi saith.

Geirfa

rhydd free	ges i' I got
mewn golwg in mind; planned	yn rhad ac am ddim free; gratis

cyngerdd concert
enwog famous

galw call
amdanat ti for you (am)

Exercise 4

Cywir neu Anghywir?

- | | |
|---------------------------------------|-----|
| 1 Mac Siwan yn golchi ei gwallt heno. | C/A |
| 2 Oedd Emyr ar y teledu neithiwr. | C/A |
| 3 Mae Emyr yn talu am y ddau docyn. | C/A |
| 4 Mae'r cyngerdd yn dechrau am 7.30. | C/A |

Ailysgrifennwch y rhai anghywir
(Rewrite those that are false)

Telling the time

First of all, throw away (**taflwch**) or hide (**cuddiwch**) your digital electronic timepieces – apart from being **hollol ddisteil** *completely naff* these days, they are ill-suited to telling the time in Welsh, which sees time as a clock-face. That is to say, while it is OK to say 3.55 as either 'five to four' or 'three fifty-five' in English, only the first option will do in Welsh.

You will need these expressions for telling time to the nearest five minutes:

numbers 1–10 (Lesson 6)	chwarter a quarter
unarddeg eleven	hanner awr half an hour
deuddeg twelve	i' to
o'r gloch o'clock	wedi past, after
pum munud five minutes	yn gwmws precisely
deng munud ten minutes	
ugain munud twenty minutes	
pum munud ar hugain twenty-five minutes	

The hour in five-minute intervals is as follows:

3.00 tri o'r gloch	3.30 hanner awr wedi tri
3.05 pum munud wedi tri	3.35 pum munud ar hugain i bedwar
3.10 deng munud wedi tri	3.40 ugain munud i bedwar
3.15 chwarter wedi tri	3.45 chwarter i bedwar
3.20 ugain munud wedi tri	3.50 deng munud i bedwar
3.25 pum munud ar hugain wedi tri	3.55 pum munud i bedwar

Hanner dydd and **hanner nos** are *midday* and *midnight* respectively.

To ask the time, use **Faint o'r gloch yw/ydy hi?** *What time is it?*

To say what the time is, use:

Mae'n ...	It's ...
Mae hi bron yn ...	It's almost
Mae hi'n tynnu at ...	It's getting on for ...
Mae hi newydd 'droi ...	It's just turned ...

Judicious use of these will avoid having to be too precise in your answer. If anyone insists on accuracy to the minute, scare them off with one of the following:

Pam na brynwch chi oriawr (or wats) eich hun?

Why don't you buy your own watch?

O, edrychwch – mae 'n oriawr i wedi sefyll

Oh look, my watch has stopped

Mae'n ddrwg 'da fi (/gen i) – oriawr digidol sy 'da fi (/gen i)

Sorry, I've only got a digital

Exercise 5

Match the clock faces to the phrases

(a) Mae'n ddeng munud i naw

1




(b) Mae hi'n tynnu at bum munud wedi wyth

2



(c) Mae hi newydd droi pum munud wedi wyth

3



(d) Mae hi bron yn wyth o'r gloch

4



Exercise 6

If you have the cassette, listen to the six times given in Welsh and match them to the times in figures below:

- | | |
|----------|----------|
| (a) 3.40 | (d) 3.30 |
| (b) 3.55 | (e) 8.45 |
| (c) 7.50 | (f) 9.15 |

To say the time *when* something happens, use:

am ...	at ...
tua (AM) ...	at about ...
erbyn ...	by ...
cyn ...	before ...
ar ôl ...	after
o' ... tan ...	from ... till ...
o' ... ymlaen	from ... onwards
rhwng ... a ...	between ... and ...

Exercise 7

If you have the cassette, listen for the times that the speaker does various things (they are not in the right order), and note them down as appropriate below:

	time
(a) (gets up)	_____
(b) (has breakfast)	_____
(c) (goes to town)	_____
(d) (has lunch)	_____
(e) (washes the dishes)	_____
(f) (has evening meal)	_____
(g) (goes to bed)	_____

Possessive adjectives with VNs

The words for 'my', 'your', 'his', etc (Lesson 4) are used in front of VNs to express the *pronoun object* of the verb; for example, '... see me' is phrased as 'my seeing'; '... see him' as 'his seeing'. In Colloquial Welsh this happens mainly in sentences involving auxiliary verb (such as *eisiau, ga i...?* or *dylwn i*) + following VN. Examples:

O'n i eisiau'ch gweld chi	I wanted to see you
Ga i'ch helpu chi?	Can I help you?
Ddylsech chi'n cefnogi ni	You ought to support us

'Someone', 'anyone', etc

Rhywun means *someone* (there is also a plural **rhywrai** *some people*), and **unrhywun** means *anyone*. You can use **rhyw-** and **unrhyw-** to make other words:

rhywbeth something	unrhywbeth anything
rhywle somewhere	unrhywle anywhere
rhywbryd some time	unrhywbryd any time

Pwy sy'n ... (+ VN)? 'Who is ... (-ing)?'

When the interrogative word **Pwy?** *Who?* is used with a present tense verb (not **bod** on its own – see Lesson 1), we need a special form of **bod** before the VN: **sy**. Compare:

- (a) **Mae Angharad yn darllen y newyddion heno, ond ...**
Angharad *is* reading the news tonight, but ...
- (b) **pwysy'n darllen y newyddion yfory?**
who *is* reading the news tomorrow?

Mae cannot be preceded by the subject of the sentence in Welsh. Normally, of course, this situation does not arise, because the verb normally comes first in Welsh (see (a) above), but question-words do come first, and when they represent the subject (as in (b) above), **mae** is changed to **sy**. Further examples:

Pwy sy'n dod 'da ni?	Who's coming with us?
Pwy sy'n gyrru heno?	Who's driving tonight?

Pwy sy'n siarad Cymraeg yma? Who speaks Welsh here?

This also applies to other question words:

Beth sy'n digwydd?	What's happening?
Faint sy'n aros?	How many are staying?
P'un sy'n perthyn i chi?	Which one belongs to you?
Sawl un sy 'da chi?	How many have you got? [lit. 'how many are with you']

Remember that identification sentences (Lesson 1) use **yw/rody** instead – **sy** is never used in these types.

Exercise 8

Make any corrections necessary in the verb-forms in the following:

- 1 Pwy yw'n gyrru'r lori 'na?
- 2 Pwy yw fan'na?
- 3 Faint yw pecyn o greision?
- 4 Beth sy'n bod fan'na?
- 5 Pwy sy eich brawd?
- 6 Beth ydy prifddinas yr Alban?

Sgwrs

Debi and Siân bump into each other in the street

DEBI: Siân! Dw i heb 'weld ti ers tro.

SIÂN: Beth am fynd am 'banaid a sgwrs bach rywle?

D: Nawr, ti'n meddwl? Wel, nawr 'te – 'gawn ni 'weld ...

(*looks in her trefniadur personol (personal organiser)*)

... 'ma ni: dw i'n cael te gyda ffrindiau am ddau; wedyn mac'r trydanwr yn dod am 'dri. O hanner awr wedi tri tan 'bedwar bydda i'n gwneud y siopa. Os eith hynny'n ddidrafferth, bydda i yn ôl yn 'brydlon i nôl y plant o'r ysgol. Wedyn ...

S: Beth am heno?

D: Heno? Wel ...

(*turns the page*)

... dw i'n coginio o saith tan wyth. Bydd Ronnie a Fifi'n dod draw tua hanner awr wedi wyth. Wedyn, ar ôl swper, yn ni i gyd yn mynd ...

S: O, dim ots, Debs – 'sdim rhaid inni 'wneud e nawr. Beth am yfory?

D: Yfory? Mmm . . .

(turns another page)

Mae yfory'n llawn 'dop 'da fi. 'Allwn ni 'drefnu fe ar gyfer rhyw ddiwrnod arall? Mae pythefnos i heddiw yn rhydd 'da fi.

S: Pythefnos i heddiw!? O'r gorau. Ond rhaid i mi 'wneud nodyn o'r dyddiad rhywle.

(Siân fumbles in her bag and pockets for a pencil and paper)

D: Ti mor anhrefnus, Siân. Ddylet ti 'brynu trefniadur dy hun, – mae'n achub cymaint o amser, wir i ti.

Geirfa

ers tro for a while (since)	llawn full
rhywle somewhere	llawn 'dop full right up
meddwl (here) mean	pythefnos fortnight
os eith . . . if . . . goes	nodyn (a) note
yn ddidrafferth smoothly;	dyddiad date
without problems	mor' so
prydlon punctual; on time	anhrefnus disorganised
nôl fetch (moyn in many S areas)	achub save (safio in many areas)
coginio cook	cymaint (o') so much/many

Language difficulties

By now you should be beginning to feel more confident in your use of conversational Welsh, and it is at this stage that you may encounter two types of problem. First, you may know how to phrase something, but do not know a particular Welsh word. In this case, ask in Welsh for the word you need:

Sut mae dweud ' . . . ' yn Gymraeg?

How do you say ' . . . ' in Welsh?

Or, if it is something you can point to:

Beth dych chi'n galw hwn (hwnnw) yn Gymraeg?

What do you call this (that) in Welsh?

If the response still causes problems, you could say:

Newch chi sgrifennu fe i lawr i mi?

Will you write it down for me?

but make sure one or other of you has pen and paper first to avoid unnecessary embarrassment.

Second, you may have difficulty understanding what someone has said to you – this is a stage of language-learning that everyone has to go through, and remember that it is far more worthwhile 'jumping in at the deep end' and tackling fairly fast but natural Welsh than settling for the 'soft option' of unnaturally slow and laboured speech. Try and prevent the conversation switching to English – once this happens, it is all the more difficult to steer it back to Welsh. Even if you understood nothing at all of what the speaker has just said, you should say so in Welsh. Here are some useful phrases for this type of situation:

Mae'n ddrwg gen i (S: 'da fi) . . .	I'm sorry . . .
Dw i ddim yn deall	I don't understand
Dw i'n deall llawer, ond dim popeth	I understand a lot, but not everything
Allech chi ddweud hynny 'to?	Could you say that again?
Rhaid i chi siarad yn araf i mi	You must speak slowly for me
Dw i ddim yn deall y gair ' . . . '	I don't understand the word ' . . . '
Peidiwch troi i'r Saesneg	Don't turn to English
Dwedwch fe 'to wrtha i yn Gymraeg	Say it again to me in Welsh

It is important for the serious student to socialise with Welsh-speakers as much as possible. This need not mean – at least in the early stages – that you should aim to hog the conversation; listening is a crucial part of language-learning, and sitting on the sidelines is very definitely not a waste of time as long as your ears are open and you are attempting to take things in, even on a passive level. Getting the gist of a conversation is an important stage on the road to fluency. Here are some phrases to reassure your Welsh-speaking friends that you are not being anti-social:

Anwybyddwch fi, . . .

Peidiwch poeni amdana i, . . .

} Don't mind me, . . .

dw i'n gwrando ar bob gair

I'm hanging on every word

ymarfer 'n sgiliau gwrando a deall dw i

I'm practising my comprehension skills

dw i'n ymdopi

I'm coping

dw i ar goll, ond dw i'n cael hwyl ta beth

I'm lost, but I'm having fun all the same

am y Gymraeg yn unig dw i fan hyn

I'm only here for the Welsh

The Eisteddfod

You can get lots of practice speaking Welsh at the **Eisteddfod Genedlaethol National Eisteddfod**, which is a **digwyddiad diwyllian-nol pwysig important cultural event** in Wales. Basically a **gwyl festival of cystadleuthau competitions** in various cultural fields, it has a secondary function as an annual meeting place for Welsh-speaking people **o bob cwr o'r wlad from every corner of the land**. Where does this reunion take place? Well, it depends: the National Eisteddfod moves around, visiting a different town or area every year, always in the first week of August. They alternate between venues in the North and in the South, which leads to some **pen-derfyniadau dadleuol controversial decisions** regarding places in mid-Wales – **Aberystwyth**, for example, was officially a southern venue (**digon teg fair enough**) for 1992, while **Llanelwedd** (near **Llanfair-ym-Muallt Builth Wells**) in 1993 was of course a northern venue, despite the minor point that, on most maps, it has an irritating habit of appearing to be fifteen miles further south than Aberystwyth. But **ta beth whatever**, no-one seemed to mind and, **wedi'r cwbl after all**, there are more important things **ar y ddaear 'ma on this earth** than **daeryddiaeth geography**.

The twin **uchafbwyntiau highlights** of the Eisteddfod are the awarding of **Cadair yr Eisteddfod the Eisteddfod Chair**, and the **Coron Crown**. These are for different types of poems; the subjects are specified in advance, as are the required structures of the poems, which involve mastery of **cynghanedd**, a method of internal rhyme and alliteration, and of different **mesurau caeth strict metres**: every one who competes in these, and other competitions, submits his or her entry under a **ffugenw (pseudonym)** to ensure **chwarae teg fair play** in the **beirniadaeth judging**. For these important competitions a panel of eminent judges deliberates, and hopes to be able to **dyfarnu award** the prize – but if they judge that none of the entries has sufficient merit to be **teilwng worthy** of the prize, then they must **atal y wobwr withhold the prize**. In this way it is hoped that **safonau standards** are maintained. All of this is given a high profile in the

Welsh media, and it would take an **ymosodiad niwcliar ar Bontrhydygroes nuclear attack on Pontrhydygroes** or **angenfilod o'r gofod ar strydoedd y Bala spacemonsters on the streets of Bala (yn ffodus i'r 'steddfod fortunately for the eisteddfod** not always easy to spot, **fel y gellwch ddychmygu as you can imagine**) to knock it off top billing.

There is a no-alcohol rule **ar Faes yr Eisteddfod on the Eisteddfod field** (it nearly always *is* in a field, as well – a very large one, big enough to accommodate all the **pebyll tents** and **standinau stands**), and the language of the whole event is of course Welsh, though English-speaking visitors are increasingly seen taking an interest in this aspect of Welsh culture.

It is, of course, not everybody's **panaid o de**: if you are a keen **eisteddfotwr eisteddfod-goer**, then there are plenty of reasons for joining in the fun; if not, then you just have to **cadw draw keep away** from that part of Wales, and **osgoi avoid** the Welsh-language radio and TV channels **fel y pla like the plague** all week.

9 Be' ddigwyddodd?

What happened?

In this lesson you will learn how to:

- talk about events in the past
- say *when* something happened
- say *before* or *after* something happened
- use **mo** in negative sentences

Sgwrs

- GERAINT: LLe aethoch chi ar cich gwyliau eleni, 'te?
 LLŴR: Aethon ni i Ffrainc. 'Deithion ni o 'gwmpas Gogledd y 'wlad, a gorffen ym Mharis.
 G: Faint o amser 'dreulioch chi ym Mharis?
 LL: O'n ni yno am 'dri diwrnod.
 G: Lle arhosoch chi ym Mharis?
 LL: Mewn gwesty yng nghanol y ddinas. Mae Delyth yn nabod un o'r cogyddion - 'gwrddon nhw ar 'gwrs flynyddoedd yn ôl, cyn inni 'briodi.
 G: A be' naethoch chi yno?
 LL: Wel, es i allan 'bob dydd i 'weld y ddinas.
 G: Ar 'ben dy hun, ti'n meddwl?
 LL: Ie. Oedd Delyth yn teimlo'n flinedig ar ôl yr holl 'deithio, ac fe 'benderfynodd hi aros yn y gwesty.
 G: Beth . . . am 'dri diwrnod!?
 LL: Oedd hi'n flinedig iawn.
 G: Be' naeth hithau, 'te, wrth i ti 'grwydro strydoedd Paris?
 LL: Wel, oedd ei ffrind y cogydd yno i 'gadw cwmni iddi, cofia.
 G: Doedd e ddim yn gweithio, 'te.
 LL: 'Gaeth e amser rhydd.

- G: Sut oedd y 'daith adre?
 LL: O'n i'n teimlo braidd yn isel 'n ysbryd, a dweud a gwir, wedi gadael Delyth ym Mharis.
 G: Ddaethoch chi ddim yn ôl gyda'ch gilydd, 'te?
 LL: Naddo. Mae hi'n dod yn ôl rywbryd tua diwedd y mis.
 G: Gwela i.

Geirfa

- | | |
|---------------------------|---|
| gwyliau (pl) holidays | hithau she; her (emphatic) |
| teithio travel | crwydro wander |
| o 'gwmpas around; about | stryd (-oedd) (f) street |
| treulio spend (time) | cadw keep |
| gwesty hotel | cofio remember |
| cogydd (-ion) cook (m) | rhydd free |
| cwrdd (â) meet | isel . . . (poss.) . . . ysbryd depressed |
| priodi get married | gadael (gadaw-) leave |
| ar ben dy hun on your own | gyda'ch gilydd (you) together |
| blinedig tired | gwela i I see (confirmation of understanding) |
| penderfynu decide | |

Sgwrs

A policeman (*heddw*) is taking details at the scene of a road accident

- HEDDWAS: Beth yn union ddigwyddodd fan hyn, 'te? 'Welsoch chi'r ddamwain?
 A: Do. O'n i'n sefyll ar y 'gornel yn siarad â ffrind.
 H: O 'ba 'gyfeiriad daeth y car?
 A: Oedd y car yn dod o 'gyfeiriad y 'dre, ac fe 'weles i'r beic modur yn troi o'r stryd draw fan'na i'r cyfeiriad arall.
 H: Stopiodd y beic modur cyn troi?
 A: Dw i ddim yn gwybod.
 H: Gwela i.
 (*turns to another witness*)
 A beth amdanoch chi? 'Welsoch chi be' ddigwyddodd?
 B: O'n i'n gweithio yn yr 'ardd pan 'glywes i sw'n ofnadwy o'r stryd.
 H: Aethoch chi allan i 'weld beth oedd yn bod?

B: Do, redes i allan yn syth a gweld dyn ifanc yn gorwedd ar y palmant. Yna ffonies i'r gwasanaethau brys.

Geirfa

digwydd happen, occur	clywed (clyw-) hear
damwain (f) accident	sŵn noise, sound
sefyll stand	rhedeg (rhed-) run
cornel (f) corner	yn syth straight away
cyfeiriad direction	gorwedd lie
troi turn	palmant pavement
gardd (f) garden	gwasanaethau brys emergency services

Sgwrs

- SUSIE: Ti'n edrych yn flinedig braidd, Brenda.
 BRENDA: O, Susie, dw i wedi cael diwrnod ofnadwy, timod. Yn 'gynta, fe 'ges i 'broblem gyda'r car ar y ffordd i'r 'dre. Galwes i'r garej lleol, ond wedon nhw fod neb ar gael i roi help. Wel, o'n i braidd ar frys, felly yn y diwedd 'gerdes i i'r 'dre. Ar ôl gwneud y siopa, 'golles i'r bws, a pan 'gyrhaeddes i, ffeindies i fod neb gartre a'r drws ar 'glo.
 S: Doedd dim allwedd 'da ti?
 B: Nag oedd! Roddes i'n allwedd i'n chwaer i wythnos diwetha, ac o'n i heb 'gael hi yn ôl.
 S: Be' nest ti, 'te?
 B: 'Gures i ar ddrws nghymydog, Mrs Evans. 'Drion ni 'dorri i mewn, ond heb lwyddiant - doedd dim bricsen ar 'gael, t'wel. Felly gwahoddodd Mrs Evans fi i mewn am 'banaid o de. Wedyn ddaeth 'n chwaer i a'i chariad Wayne yn ôl am 'bedwar.
 S: Be' wedest ti 'thyn nhw. O't ti'n 'grac?
 B: Nag o'n, nag o'n. Ond wedes i wrth Wayne am fynd i nôl nghar.
 S: Mecanydd yw Wayne, 'te?
 B: Nage, nage. Ond mae'n nofiwr ardderchog . . . buodd yn nofio dros 'Gymru. Person delfrydol i wneud y job.
 S: Mae'n nofio? Pam fod hynny'n 'bwysig, 'te?
 B: Wel, i nôl y car o'r afon lle gadawes i fe.

Geirfa

dw i wedi cael I've had	o'n i heb gael hi yn ôl I hadn't
yn gynta first	had/got it back
ar y ffordd on the way	curo knock
galw call	llwyddiant success
wedon nhw fod . . . they said that . . .	bricsen (f) brick
ar gael available	t'wel y'see (chi -form: ch'wel) (S)
ar frys in a hurry	gwahodd invite
yn y diwedd in the end	crac cross, angry
cerdded (cerdd-) walk	nôl fetch
colli lose; (here) miss	nofiwr swimmer
cyrraedd (cyrhaedd-) arrive	delfrydol ideal
ffeindio find	pwysig important
ar glo locked	afon (-ydd) (f) river
allwedd (-i) (f) key	

Preterite (past) tense

The preterite in Welsh denotes completed action in the past. It is formed by adding endings to the stem (Lesson 5) of the verb:

	<i>sing.</i>	<i>pl.</i>
1	-es	-on
2	-est	-och
3	-odd	-on

These are followed as usual by the appropriate pronouns, so that, for example, **gweld** see (stem **gwel-**) looks like this in the preterite:

gweles i I saw	gwelon ni we saw
gwelest ti you saw	gweloch chi you saw
gwelodd e/hi he/she saw	gwelon nhw they saw

Being an inflected tense, the principles of mutation and affirmative particles (see Lessons 3 and 7) apply here. Go back now and look these over again if you are uncertain.

Sometimes an **-s-** is inserted between stem and plural endings, particularly with stems ending in **-l-** or **-d-**; so **gwelsoch chi** for **gweloch chi**. There is no difference in meaning.

There is also a non-inflected preterite in Colloquial Welsh which

is interchangeable with the inflected method described here. It will be dealt with later (Lesson 14), and for now you should concentrate on mastering this one. A third method, restricted to Northern regions of Wales, will also be introduced in Lesson 14.

Exercise 1

Using the vocabulary at the back if necessary, write a report in Welsh of six things that you did yesterday, saying what you did, and at what time. For example, you could say that you fed (**bwydo**) the cat at half past eight: **Fe fwydes i'r gath am hanner awr wedi wyth.** Try and be interesting and/or controversial.

- 1 _____ i _____ am _____
- 2 _____ i _____ am _____
- 3 _____ i _____ am _____
- 4 _____ i _____ am _____
- 5 _____ i _____ am _____
- 6 _____ i _____ am _____

Irregular preterites – 'went', 'came', 'did', 'got'

These four important verbs have irregular preterites which must be learnt. Notice that they all go the same way – once you have learnt **es i, est ti** etc., you can do the others.

	<i>VN mynd</i>	<i>gwneud</i>	<i>dod</i>	<i>cael</i>
sing.	1 es i I went	nes i I did	des i I came	ces i I got
	2 est ti	nest ti	dest ti	cest ti
	3 aeth e/hi	naeth e/hi	daeth e/hi	caeth e/hi
pl.	1 aethon ni	naethon ni	daethon ni	caethon ni
	2 aethoch chi	naethoch chi	daethoch chi	caethoch chi
	3 aethon nhw	naethon nhw	daethon nhw	caethon nhw

The preterite of **cael**, however, is found in different forms depending on the region. You may hear **cafodd e/hi** for 3rd pers. sing.; and the plural forms can be **cafon ni, cafoch chi, cafon nhw** or **cawson ni, cawsoch chi, cawson nhw**. As always, the best approach is to follow the practice of local native speakers.

Exercise 2

Rearrange the scrambled sentences for the dialogue to make sense:

- A: da ti ar ? gest dy amser wyliau
 B: iawn 'n oedden 'r tywydd gyda ni lwcus do,
 A: arian wariest o ? ti lawer
 B: ddes â fe yn ti i i hwn ond ôl naddo,
 A: yw 'na ? beth e garedig,
 B: faes anrheg awyr o Caerdydd

Geirfa

gwario spend (money)	dod â bring
caredig kind	maes awyr airport

Preterite of bod

The verb 'to be' has its own preterite, used in certain very restricted senses.

	<i>singular</i>	<i>plural</i>
1	bues i	buon ni
2	buest ti	buoch chi
3	bu(odd) e/hi	buon nhw

In everyday language, this is most often found with reference to journeys or visits to places, and it corresponds to English 'have been (to) ...':

Fuoch chi yn Harlech erioed?	Have you ever been to Harlech?
Fe fuon ni yn Lloegr llynedd.	We were in England last year.
Lle buest ti, 'te?	Where have you been, then?

Notice that in all the examples above, the persons concerned have since returned from where they were.

Exercise 3

Cywir neu Anghywir?

Look back over the three dialogues we have had in this lesson, and decide true or false for the following:

- 1 Mae Wayne yn frawd-yng-nghyfraith i Brenda.
- 2 Oedd y beic modur yn mynd i'r dre.
- 3 Arhosodd Delyth a LLŷr mewn gwesty.
- 4 Mae Mrs Evans yn byw drws nesa i Susie.
- 5 Gadawodd Brenda ei char yn y garej.
- 6 Oedd Delyth yn sâl ym Mharis.

Exercise 4

Turn the following present tense sentences into the preterite.

Example: *Maen nhw i gyd yn mynd i'r dre*
 – *Aethon nhw i gyd i'r dre*

- 1 Mae Peter yn cael sanau i Nadolig.
- 2 Dw i'n ymweld â'r teulu.
- 3 Ydych chi'n defnyddio'r llyfr 'na?
- 4 Ti'n ynganu hynny'n anghywir.
- 5 Ydy John a Sally'n agor y siop bore 'ma?
- 6 Yn ni'n dysgu llawer o'r llyfr 'ma.

Geirfa

hosan (pl. sanau) sock	ynganu pronounce
ymweld (ymwel-) â visit	anghywir wrong; incorrect

'Yes' and 'No' in the past

Y/N questions using the preterite require the answer **Do** for 'Yes' and **Naddo** for 'No'.

Glywsoch chi'r sŵn 'na?	Naddo.
Did you hear that noise?	No
Welest ti'r ffilm neithiwr?	Do.
Did you see the film last night?	Yes

To make 'tag'-questions after preterite statements, simply use **On'do?**, regardless of person:

Ddaethon nhw i drwsio'r soser lloeren ddoe, on'do?
 They came to mend the satellite dish yesterday, *didn't they?*
Roddes i'r manylion i ti gynnu, on'do?
 I gave you the details just now, *didn't I?*

C/A
 C/A
 C/A
 C/A
 C/A
 C/A

Expressions with ar°

Welsh has a number of set expressions involving **ar** + another element, often but not always a VN. We saw **ar gael**, **ar frys** and **ar glo** in the third Sgws of this lesson. They all indicate some kind of state or condition, and are best learnt as one-off items. Here are some other common ones:

ar agur open	ar gau closed
ar dân on fire	ar goll lost
ar gadw (packed/tidied) away	ar werth for sale

How to say 'when ...'

We have already encountered the question-word **Pryd ...?** meaning *When ...?*:

Pryd mac'r bws nesa'n dod? When is the next bus coming?

But if 'when' occurs in a *statement*, then in most parts of Wales a different word **pan°** is used instead. It is very common with the preterite.

Pan ddaeth y bws ...	When the bus came ...
Pan gyrhaeddod ni adre ...	When we got home ...
O'n i mas pan ffoniest ti	I was out when you phoned

Avoiding the preterite with 'before ...', 'after ...', 'as ...', 'since ...'

You do not need the preterite after timewords like **cyn** *before*, **ar ôl** *after*, and **wrth** *as* in expressions like 'before we *arrived*', 'after Fifi *left*'. In Welsh these words are used in a different construction, involving **i** and a plain VN:

[time word] **i** [person] °[VN]

For example, while 'Gwenith arrived' is **gyrhaeddodd Gwenith**, 'after Gwenith arrived' is *not* 'ar ôl gyrhaeddodd Gwenith' but:

ar ôl i Gwenith °gyrraedd

Further examples:

Lapies i'r anrheg cyn i Lisa ddod adre
I wrapped the present *before Lisa came home*
Wrth i Fifi fynd allan, ddaeth Katy i mewn
As *Fifi went out*, Katy came in

Notice that, in all two-part sentences of this type, there is a preterite in the other part that makes the time clear.

Exercise 5

Cyfieithwch i'r Gymraeg

- 1 I read a book while the children did their homework.
- 2 We arrived home before it got dark (**tywyllu**).
- 3 I turned off (**diffodd**) the television before the programme finished.
- 4 He walked out before I had (**cael**) a chance (**cyfle**) to explain.
- 5 We had no Welsh before we came to Wales.
- 6 The garden looked (imperf.) better after we planted (**plannu**) the flowers.

dweud 'say'

This VN means 'say' or 'tell', as opposed to **siarad** which means 'talk' or 'speak'. In many parts of the South it is not **dweud** but **gwed**; and many regions that use **dweud** actually pronounce it **deud**. Either way, the verb-stem is generally **wed-**: **wedes i** I said, **be' wedsoch chi?** what did you say?

'Say to ...' is **dweud wrth** ... (not **i** ... as you might expect); and to tell someone to do something is **dweud wrth** (person) **am** (VN):

Well i mi ddweud wrth y plant am fod yn dawel
I'd better tell the children to be quiet
Dos i ddweud wrth Gwilym am ddod â'r bisgedi fan hyn
Go and tell Gwilym to bring the biscuits here

More personal forms of prepositions – at, wrth

At and **wrth** simply add the personal endings (see Lesson 8) directly without a 'joining' syllable:

ata i	aton ni	wrtha i	wrthon ni
atat ti	atoch chi	wrthat ti	wrthoch chi
ato fe	atyn nhw	wrtho fe	wrthyn nhw
ati hi		wrthi hi	

The general meaning of **at** is *motion towards*, and so it often does correspond to 'at'. It is similar in meaning to **i**, but with an important difference. Compare these two sentences:

Dw i'n mynd i'r feddygfa I'm going to the surgery
Dw i'n mynd at y meddyg I'm going to the doctor('s)

The preposition **i**, used spatially, implies motion towards *and into*, so it is right for buildings but not for the people who work in them. **At**, on the other hand, takes you as far as your destination without going in. For this reason also we use **at** after verbs like **ysgrifennu** write, **danfôn/anfôn** send and **hala** send, when the recipient is a person. But if a country, town or building is stated rather than a person, then **i** is the right choice:

Dw i eisiau hala'r llythyr 'ma i'r Unol Daleithiau
I want to send this letter to the United States
Dw i eisiau hala'r llythyr 'ma at Arlywydd yr Unol Daleithiau
I want to send this letter to the President of the United States

Wrth indicates spatial proximity:

Mae rhywun wrth y drws Someone's at the door
Sefwch wrth y cownter Stand by the counter

Its other common use is after **dweud** say, tell (see above p. 130). Notice that the personal forms of this preposition are frequently shortened in Colloquial Welsh – **'tha i** for **wrtha i**, **'thyn nhw** for **wrthyn nhw**.

Wedes i 'thyn nhw ddoe I told them yesterday
Mae eisiau dweud 'thi hi (Someone) should tell her

mo in NEG sentences

The negative particle **ddim** that we find on the end of all NEG verbs in Welsh cannot remain in this form when directly followed by an item that is *specific* – turn back to Lesson 6 if you wish to remind yourself of what constitutes a 'specific' word in Welsh. In these circumstances, **ddim** becomes **mo** (contraction of **ddim** + **o**). Compare:

Wales i ddim rhaglen deledu neithiwr

I didn't see a (i.e. any) television programme last night

Wales i mo'r rhaglen deledu neithiwr

I didn't see the television programme last night

In the second example, the presence of the definite article identifies **rhaglen deledu** as specific – the speaker has a particular one in mind – and this turns the preceding **ddim** (from **Wales i ddim** *I didn't see*) into **mo**. Similarly, *I didn't see Dylan* will be not **Wales i ddim Dylan** (which means 'I didn't see anyone called Dylan') but **Wales i mo Dylan**; and *I didn't see your brother* will be **Wales i mo'ch brawd**.

With pronouns (which are also specific) **mo** has personal forms like the prepositions we have already encountered:

mohona i	mohonon ni
mohonat ti	mohonoch chi
mohono fe	mohony'n nhw
mohoni hi	

(sometimes without the **-ho-** element: **moni hi** for **mohoni hi**, etc.)

Wales i mohonot ti fan 'na	I didn't see you there
Brynon ni monyn nhw	We didn't buy them

Exercise 6

Without translating, decide which of these sentences would use **ddim** in Welsh, and which would use **mo**:

- 1 We didn't buy any bread when we were out.
- 2 Bertie didn't pay his library fine.
- 3 The police didn't find Bertie.
- 4 I didn't eat the carrots.
- 5 I didn't eat any vegetables at all, actually.
- 6 You didn't help me.

Sgwrs 

Fran and Norman are discussing last night's viewing

NORMAN: 'Welest ti'r ffilm ofnadwy ar y teledu neithiwr?

FRAN: Naddo, 'weles i moni. O'n i'n gweithio yn y tŷ bwyta tan yn hwyr.

- N: 'Gollest ti ddim byd. Oedd hi'n ofnadwy, 'wir i ti.
 F: Mae'n amlwg. Sut ffilm oedd hi, 'te?
 N: Ffilm arswyd, i fod.
 F: A be' ddigwyddodd yn y ffilm?
 N: Wel, ddaeth anghenfil enfawr allan o'r môr ac ymosod ar ddinas Llundain. 'Gerddodd i fyty'r Tafwys a dechrau bwyta adeiladau yng nghanol y ddinas; wedyn aeth ymlaen i San Steffan.
 F: Swnio'n ddigon cyffrous.
 N: Ti'n meddwl? Wel, gwrandda – pan 'gyrhaeddodd yr anghenfil San Steffan a dechrau bwyta Tŷ'r Cyffredin, aeth pethau o ddrwg i 'waeth.
 F: Do? Be' ddigwyddodd, 'te?
 N: Wel, 'geisiodd pawb tu allan achub y 'bobol tu fewn!
 F: Be'? Achub yr Aelodau Seneddol?
 N: Ie! Cwbwl afrealistig, yntefê?
 F: Cytuno'n llwyr.
 N: Doedd neb yn helpu'r anghenfil druan o 'gwbwl.
 F: 'Gest ti dy siomi, 'te.
 N: Do. Des O'Connor ar y sianel arall 'bob tro i mi o hyn ymlaen.
 F: (*shivers*) Brrr, 'na arswyd go iawn i ti.
 N: Iasoer, yntefê? Mae'n gwneud i ti feddwl, on'd ydy?

Geirfa

tŷ bwyta restaurant
 tan yn hwyr till late
 amlwg obvious
 sut' . . .? what kind of . . .?
 arswyd horror
 i fod supposed to be
 anghenfil monster
 enfawr huge
 môr sea
 ymosod (ar) attack
 Llundain London
 Tafwys Thames
 adeilad (-au) building

cyffrous exciting
 o ddrwg i waeth from bad to worse
 achub save
 af- un-
 yntefê? isn't it? [general question tag, like French n'est-ce pas?]
 cytuno'n llwyr (I) completely agree
 gest ti dy siomi you were disappointed
 o hyn ymlaen from now on
 go iawn real; genuine
 iasoer chilling; bloodcurdling

THEATR FELINFACH

yn cyflwyno

DRAMA
DDYDDIOL NEWYDD SBON

BONTLWYD

**UN-AR-DDEG Y BORE
BOB BORE (LLUN - GWENER)**

Cofiwch am y bennod gynta
BORE LLUN 11eg HYDREF
ar

RADIO CEREDIGION
ar 103.3fm a 96.6fm

Exercise 7

Look at this **taflen gyhoeddusrwydd** *publicity leaflet* for a programme on a local radio station, and then answer the following questions in English:

- 1 How often is the programme on?
- 2 What time is it on?
- 3 What is happening on the 11th October?

Geirfa

newydd sbon brand new

pennod (f) chapter; episode

**Coleg
Ceredigion**

- Cyfle cyffrous i bobl ifainc sy'n gadael yr ysgol ac oedolion gael addysg a hyfforddiant.
- Hyfforddiant yn rhad ac am ddim i bob myfyriwr amser llawn newydd.
- Cludiant yn rhad ac am ddim yn ôl a 'rdaen i'r coleg ar hyd y prif ffyrdd.

**COLEG
CEREDIGION**
*Safon ar
Garreg y Drws*

Exercise 8

Look at the advert above for a local **coleg addysg bellach** *further education college* and answer the following questions in English:

- 1 What two groups of people is the advert aimed at?
- 2 What type of students get free tuition?

Geirfa

cludiant transport
ar hyd along

prif main
ffordd (ffyrdd) road

10 Awgrymu pethau

Making suggestions

In this lesson you will learn how to:

- make suggestions
- give invitations
- arrange to meet someone
- express a preference for doing something
- say years and dates

Sgwrs

Jeni wants Pippa to come and cut her hair, so she phones to make an appointment

JENI: Helo. Ydy Pippa 'na?

ANNE: Daliwch eiliad - a i i moyn hi.

(Pippa comes to the phone)

PIPPA: Helo, Pippa sy 'ma.

J: Helo, Pippa. Jeni sy 'ma. Elli di ddod i 'dorri ngwallt i pnawn yfory, tybed?

P: Pnawn yfory - hmm, dw i'n eitha prysur yfory, dw i'n meddwl. Ond na i edrych yn y dyddiadur.

(looks in her diary)

O, 'ma ni - ydy pedwar yn 'gyfleus?

J: I'r dim.

P: Iawn - na i 'alw heibio tua pedwar o'r 'gloch yfory, 'te.

J: Gwych! 'Welwn ni ti yfory. Hwyl nawr.

P: Hwyl.

Geirfa

dal hold
eiliad (f) (a) second
moyn (here) fetch (S)
tybed I wonder
eitha quite

prysur busy
dyddiadur diary
gaiw heibio call round
gwych! great!

Sgwrs

The girls are on the razzle somewhere, and Gary and Jim are wondering what to do this evening. A simple enough thing to decide. wouldn't you think?

GARY: Oes awydd 'da ti fynd mas rhywle heno?

JIM: Efallai. Be' sy 'da ti mewn golwg?

G: O'n i'n meddwl efallai gallen ni 'gael diod neu ddau mewn tafarn rhywle, ac wedyn mynd am 'bryd o fwyd Indiaidd.

J: Neu fe 'allen ni fynd am 'bryd o fwyd Indiaidd 'gynta, ac wedyn diod neu ddau mewn tafarn.

G: Mae hynny'n 'bosibilrwydd arall. P'un sy'n well 'da ti?

J: Hmm - bwyd Indiaidd, ac wedyn y diodydd. Neu ddiodydd 'gynta, ac wedyn y bwyd. O, 'alla i ddim penderfynu!

G: Mae bywyd yn 'gymhleth weithiau, on'd yw e?

J: Ydy. Iawn - awn ni am fwyd 'gynta, cyn i'r lle lenwi.

G: Penderfyniad o'r diwedd! Iawn. Awn ni, 'te. Mae'n saith o'r 'gloch yn 'barod.

J: Aros funud. I 'ba 'dŷ bwyta Indiaidd awn ni? I'r *Golau Asia* neu i'r *Tandŵri Brenhinol*? Well 'da fi'r *Tandŵri*, rhaid i mi ddweud.

G: Ond well gen i'r *Golau Asia*. 'Gas gen i fynd i'r *Tandŵri* dyddiau 'ma - mae gormod o fyfyrwyr yn mynychu'r lle.

J: Ond mae hynny'n dangos pa mor dda yw'r bwyd!

G: O? Ac ers pryd mae myfyrwyr, o 'bawb, yn poeni am ansawdd bwyd?

J: Wel - ta beth, 'alla i ddim diodde'r 'gerddoriaeth yn y *Golau Asia*. Dw i'n gwrthod mynd yno.

G: Iawn. Penderfyniad arall wedi'i wneud. Oes syniadau eraill 'da ti?

J: Gallen ni eistedd o flaen y teledu am 'weddill y noson.

G: 'Na syniad - mae *Pobol y Cwm* ar fin dechrau.

J: Ond mae'r pêl-droed Americanaidd ar fin dechrau ar y sianel arall! . . .

Geirfa

oes awydd 'da ti (+ VN)? do you feel like -ing . . . ?	myfyrwyr (pl) students
mewn golwg in mind	mynychu (to) frequent, go to
pryd o fwyd meal	o bawb of all people
posibilrwydd possibility	ansawdd quality
gynta first (adv.)	cerddoriaeth (f) music
cymhleth complicated	gwrthod refuse
llenwi fill up	wedi'i wneud made
	ar fin (+ VN) about to . . .

Exercise 1

Cywir neu Anghywir?

- 1 Mae teledu yn y *Golau Asia*. C/A
- 2 Mae Gary a Jim yn penderfynu cael bwyd cyn mynd i'r dafarn. C/A
- 3 Dyw Gary ddim yn hoffi'r *Tandŵri*. C/A
- 4 Mae ansawdd bwyd yn bwysig i fyfyrwyr. C/A
- 5 Mae pêl-droed Americanaidd ar y teledu ar ôl *Pobol y Cwm*. C/A
- 6 Does dim cerddoriaeth yn y *Golau Asia*. C/A

Gallwn i 'I could'

In Lesson 8 we had **dylwn i** *I ought to/should*. We can use the same set of endings on **gallu** to express *I could*, where this means 'I would be able':

singular	plural
1 gallwn i	gallen ni
2 gallet ti	gallech chi
3 gallai fe/hi	gallen nhw

The same applies for **medru** in the North: **medrwn i**, etc.

As with **dylwn i** etc., the VN following **gallwn i** etc. has SM. SM of the verb-form itself is required as usual in questions and NEG sentences:

Allai fe ddod yfory?

Could he come tomorrow?

Allwn i ddim derbyn hynny

I couldn't accept that

Exercise 2

Cyfeithwch i'r Gymraeg

- 1 Could you (**chi**) help me?
- 2 We ought to inform the authorities.
- 3 You (**ti**) could be right.
- 4 Should we discuss this with him?
- 5 I could mend that for you (**ti**) if you want.
- 6 We could come back at a more convenient time.

Geirfa

rhoi gwybod i inform	trwsio mend
awdurdod (-au) authority	adeg (f) time (occasion)
iawn right (correct)	mwy cyfleus more convenient
trafod discuss	

'other', 'the other (one)'

As an adjective (e.g. 'the other man'), *other* is **arall** in Welsh; it is one of a small number of adjectives that have a different form for use with plural nouns (**eraill** – pronounced **erill**). So **y dyn arall** *the other man*, but **y dynion eraill** *the other men*.

If you want to use *other* as a pronoun (i.e. meaning 'the other one'), then you need **y llall** (singular), **y lleill** (plural):

Lle mae'r llall?

Where's the other one?

Mae'r lleill draw fan'na

The others are over there

Exercise 3

Using the vocabulary at the back where necessary, put either **arall** or **eraill** after the following nouns:

y siopau _____	y merched _____
llyfrau _____	y tŷ _____
gair _____	rhaglenni _____
y geiriau _____	y sianeli _____

y cyllyll _____
ei sgidiau _____
sianel _____

eich coes _____
athrawon _____
athrawesau _____

'Which ...?'

If you want to ask 'Which ...?', use **Pa** ...? (or **Pwy** ...? in many S areas):

O 'ba ran o Gymru dach chi'n dod yn wreiddiol?

What part of Wales do you come from originally? [lit. 'From which part ...?']

Ym mha ddosbarth mae dy chwaer yn dysgu Cymraeg?

What class is your sister learning Welsh in? [lit. 'In which class ...?']

As pronouns, *Which one?* is **Pa un?** or, frequently in Colloquial Welsh, **P'un?**. The plural **Pa rai?** means *Which ones?*

P'un sy'n edrych orau? Which (one) looks the best?

Pa rai wyt ti am brynu? Which (ones) do you want to buy?

'How ...'

Pa mor ...? is used with adjectives to mean *How ...?* in the sense of 'to what extent?':

Pa mor fawr yw'ch estyniad? How big is your extension?

Pa mor ddifrifol oedd ei hanafiadau? How serious were her injuries?

But *How ...!* with an adjective as an exclamation is done with '**Na** ...!', and an optional **i ti** or **i chi** following:

'Na neis! How nice!

'Na ddrud (i ti/chi)! How expensive!

Making suggestions

In addition to **Hoffech chi** 'VN ...? etc. *Would you like to ...?*, you can use the more informal **Beth am** 'VN ...? *What/How about ... -ing ...?*, or **Oes awydd** 'da ti/chi 'VN ...? *Do you feel like ...?*

Oes awydd 'da ti balu'r ardd i mi?

Do you feel like digging the garden for me?

Beth am wisgo fel angenfilod a dychryn y plant?

How about dressing up as monsters and frightening the kids?

Preferences

Use the following phrases to find out people's preferences:

P'un sy'n well 'da chi? Which do you prefer? (choice of two)

P'un sy orau 'da chi? Which do you prefer? (more than two)

If you want to make two alternative suggestions, use:

P'un sy'n well 'da chi, (VN) neu' (VN)?

P'un sy'n well 'da ti, mynd i'r dre neu aros fan hyn?

Would you rather go to town or stay here?

To state your preferences, use:

Well 'da fi 'VN I'd rather ... (S)

Well gen i 'VN I'd rather ... (N)

Notice the difference between this and **Well i mi** 'VN, which means *I'd better ...*. Compare:

Well i fi aros fan hyn gyda'n ffrindiau

I'd better stay here with my friends

Well 'da fi aros fan hyn gyda'n ffrindiau

I'd rather stay here with my friends

Use the following phrases to say what you like or dislike doing generally:

Dw i'n hoffi/leicio VN

I like ... -ing

Dw i wrth 'y modd yn VN

I love ... -ing

Dim ots gen i/'da fi 'VN

I don't mind ... -ing

Fyddai dim ots gen i/'da fi 'VN

I wouldn't mind ... -ing

Fyddwn i ddim yn malio VN

I wouldn't mind ... -ing

Dw i ddim yn orhoff o 'VN

I'm not too keen on ... -ing

Well gen i/'da fi beidio VN

I'd rather not ...

Gas gen i 'VN

I hate ... -ing

Alla i ddim diodde VN

I can't stand ... -ing

Exercise 4

Using the likes/dislikes phrases above, make up six sentences in Welsh about your own tastes and preferences. For example, if you hate getting up in the morning, you could write **Gas gen i godi yn y bore.**

- 1
- 2
- 3
- 4
- 5
- 6

Inflected future

We have already seen how to form the future using **bydda i . . . I will be . . .** etc. (Lesson 7). You can also use future endings on the stem of the verb, in much the same way as the preterite. For the future, the endings (+ pronouns) are:

<i>singular</i>	<i>plural</i>
1 -a i	-wn ni
2 -i di	-wch chi
3 -ith e/hi	-an nhw

Notice that the 2nd person singular pronoun is **di** rather than **ti** in this tense.

General rules for inflected verbs (refer back to Lesson 7 if you are uncertain) apply with the inflected future.

The inflected and **bydda-** futures are often interchangeable in Colloquial Welsh, but in some areas the inflected forms are preferred in certain circumstances.

'If . . .', 'If . . . not . . .', 'Why don't you . . .?'

Where 'if' is followed by a present tense in English, **os** is used with a future in Welsh, and it is often the shorter, inflected future.

Os collan nhw'r gêm 'ma hefyd, bydd hi ar ben 'da ni
If they lose this game as well, we're finished

Os gweli di fo wedyn, dwed wrtho

If you see him later, tell him

Notice that the radical of the inflected verb is quite common (though not obligatory) after **os**.

Os na' (or AM) . . . *if . . . not . . .* is similarly used in NEG sentences:

Os na gollan (or chollan) nhw'r gêm 'ma, bydda i'n synnu

If they don't lose this game, I'll be surprised

Os na weli di fo . . .

If you (will) not see him . . .

And **Pam na'** (or AM) . . .? with a 2nd person inflected future is a common way of saying 'Why don't you . . .?' as a suggestion.

Pam na sgwenni di lythyr ato fo?

Why don't you write him a letter?

Pam na 'ohiriwch chi fe tan yfory?

Why don't you put it off till tomorrow?

Exercise 5

Change the VNs in brackets into the appropriate inflected future forms:

Example: Fe (ffonio) Elinor yfory
– **Fe ffonith Elinor yfory**

- 1 Fe (gweld) nhw'r canlyniadau yfory.
- 2 Pryd (blodeuo) y planhigyn 'ma?
- 3 Pam na (talw) di â siec?
- 4 Mi (tynnu) o'r llun mewn munud.
- 5 Fe (treulio) ni bum niwrnod yno.
- 6 Pam na (cysylltu) chi â'r pencadlys.

Geirfa

canlyniad result
blodeuo flower (vb)
planhigyn plant
tynnu llun take a picture

diwrnod day
cysylltu â get in touch with; contact
pencadlys headquarters

Exercise 6

Unscramble each sentence of this dialogue:

A: i gweld ddim dw mwyach ti eisiau

B: wyt feddwl 'n ? beth ti

A: gyda dw allan 'n Huw i mynd

B: mi i fe bwia

Geirfa

mwyach (any) more **pwnio** thump
meddwl mean

Galla i 'I can'

In earlier forms of Welsh, what we now know as the future endings were also used for the present where a continuing state was being expressed rather than an action. This usage survives in set expressions like **Gwela i I see** (as a confirmation of understanding) that we have already come across, and also for all persons with **gallu** – for 'I can', you can say either **dw i'n gallu** (using **bod** in the usual way with VN) or **galla i**.

	<i>singular</i>	<i>plural</i>
1	galla i I can	gallwn ni we can
2	galli di or gelli di you can	gallwch chi or gellwch chi you can
3	gali e/hi he/she can	gallan nhw they can

Notice:

- 1 the alternative vowels **a/e** in the 2nd person singular;
- and 2 that the 3rd person singular has no ending, although **gallith** and **gellith** are heard in many areas, and also in expressions like **ellith fod it may be (true)**.

Like **gallwn i I could** and **dylwn i I ought to**, **galla i** etc. is used with a following VN, which takes SM provided there is no intervening **ddim** for negatives.

(G)**alla i ddod yfory os wyt ti'n moyn**
I can come tomorrow if you want

Alla i ddod yfory?

Can I come tomorrow?

Alla i ddim dod yfory

I can't come tomorrow

The predominantly N word **medru can** is used in the same way: e.g. **medra i I can**, **medr o he can**; **fedra i? can I?**; **fedr hi ddim she can't**.

Exercise 7

The various forms of **gallu** have been put in the wrong places. Rearrange them correctly.

- 1 *Allwch* y plant ddod i chwarae pawns 'ma?
- 2 *Allwn* i siarad yn arafach os dych chi eisiau.
- 3 *Gall* i ddim gweld y pwynt.
- 4 *All* ni helpu gyda'r llestri?
- 5 *Alla* cathod weld mewn tywyliwch.
- 6 *Galla* chi aros amdana i fan hyn?

Irregular futures – 'I will go/come/do/get'

As with the preterite, **mynd**, **dod**, **gwneud** and **cael** have irregular inflected futures:

	<i>mynd</i>	<i>gwneud</i>	<i>dod</i>	<i>cael</i>
sing. 1	a i I'll go	na i I'll do	do i I'll come	ca i I'll get
2	ei di	nei di	doi di	cei di
3	eith e/hi	neith e/hi	daw e/hi	ceith e/hi
pl. 1	awn ni	nawn ni	down ni	cawn ni
2	ewch chi	newch chi	dewch chi	cewch chi
3	ân nhw	nân nhw	dôn nhw	cân nhw

You will hear variations on these in different parts of Wales, particularly **af i**, **naf i**, **dof i** and **caf i** in the 1st person singular, and **ewn ni**, **newn ni**, **dewn ni** and **cewn ni** in the 1st person plural. In some areas, **dod** goes like the other three (e.g. **deith** instead of **daw**).

Exercise 8

The verb-forms (italicised) are in the wrong places. Switch them round so that everything makes sense.

Fe *helpu* i draw am bedwar. Os na *drefnu* neb o gwmpas, *ffoniwch* adre a *allwn* Ron. Os na a Ron, *dewch* rhaid i mi *ffonio* tan heno. Ond os *ddaw* chi adre erbyn chwech, *cawn* fi; wedyn fe *fydd* ni *bydd* popeth, ac os *ddo* ni unrhyw broblemau, fe *aros* mrawd i'n *atebith* ni.

Sgwrs

Jane suggests an evening out with the family to Pam

JANE: Dan ni'n cynnal parti Nadolig yn y neuadd Nos Sadwrn. Pam na ddoi di â'r teulu?

PAM: Dw i ddim yn siwr ydan ni'n rhydd Nos Sadwrn neu 'beidio.

J: Mi 'gewch chi i gyd lawer o hwyl os dewch chi, siwr iawn i ti.

P: Na i roi gwybod i ti bore fory, iawn?

J: Iawn. Ac mi rodde i'r manylion 'ma am y noson i ti rwan beth bynnag.

P: Diolch.

(looks at the details)

O, mae gynnoch chi 'bob math o 'beth yno, on'd oes?

J: Oes. Bwyd ac adloniant. Ac mi 'geith pob plentyn anrheg oddiw'rth Siôn Corn.

P: Pwy fydd yn chwarae Siôn Corn eleni?

J: Ngŵr i. Ond os weli di fo, paid ti â deud dim. Dw i isio torri'r newyddion drwg iddo 'n hun. Ti'n meddwl byddwch chi'n dod, 'ta?

P: Gwranda – hyd yn oed os na fedra i ddod 'n hun, mi ddaw Wyn efo'r plant yn 'bendant.

Geirfa

cynnal hold (a function)

neuadd (f) hall

... neu beidio ... or not

hwyl fun

rhoi gwybod (f) let ... know

manylion (pl) details

rwan now (N)

beth bynnag anyway

pob math o beth all kinds of things

adloniant entertainment

Siôn Corn Father Christmas

'n hun myself (N)

hyd yn oed even

os na fedra i ... if I can't ... (N)

yn bendant definitely

Exercise 9

Atebwch y cwestiynau am y darn uchod yn Saesneg:

- 1 What will Jane's husband be doing?
- 2 Who will definitely be coming to the party?
- 3 When will Pam know if she can come?
- 4 What will be available apart from presents and entertainment?

Years

To begin with, you need to know that there are three related words for 'year' in Welsh: (i) **blwyddyn** (f) is the basic dictionary form, used on its own and in expressions like **Blwyddyn Newydd Dda!** *Happy New Year!*; (ii) **blynedd** is used after numerals (other than 'one'); note the mutations it undergoes from 2 to 10:

(un flwyddyn) 1 year

dwy flynedd 2 years

tair blynedd 3 years

pedair blynedd 4 years

pum mlynedd 5 years

chwe blynedd 6 years

saith mlynedd 7 years

wyth mlynedd 8 years

naw mlynedd 9 years

deng mlynedd 10 years

'6 years' is also heard as **chwe mlynedd**, and '8 years' as **wyth blynedd**.

(iii) **blwydd** means 'years of age', and is optionally followed by **oed** age. The mutations are as for **blynedd**. So, for example, **dwy flwydd oed** *two years old*, **deng mlynedd oed** *ten years old*.

To ask how old someone is, say **Beth ydy/yw 'ch oed chi?** *What is your age?*, or, to a child, **Beth ydy/yw dy oed?** **Faint yw'ch oed** and **Faint yw dy oed?** are alternatives. **Oedran** is also heard for **oed**.

To find out what year someone was born in, say **Pryd gaethoch chi'ch geni?** or **Pryd gest ti dy eni?** *When were you born?* To say when you were born, use **Ges i ngeni ym ...**

Years are referred to in Welsh as 'a thousand' (**mil**) followed by three single digits. So '1975' is **mil naw saith pump**; 'in 1993' is **ym mil naw naw tri**, written **ym 1993**. But '1970' can be either **mil naw saith dim** or **mil naw saithdeg**; and 'the 70s' is **y saithdegau**.

Exercise 10

Answer the questions in Welsh, as indicated.

Example: Pryd gafodd eich brawd ei eni? (1962)

– Cafodd mrawd ei eni ym mil naw chwech dau

- 1 Faint yw oed eich tad? (57)
- 2 Pryd gaethoch chi'ch geni? (1948)
- 3 Pryd gafodd eich chwaer ei geni? (1976)
- 4 Faint ydy oed eich brawd bach nawr? (7)
- 5 Pryd gafodd yr efeilliaid eu geni? (1988)
- 6 Beth yw oed dy chwaer-yng-nghyfraith? (20)

Exercise 11

There are some rather odd things in the following piece. Can you spot them and rewrite them so they make sense?

Mae nghymydog i, Mr Williams, yn wraig tŷ. Mae e'n ugain mlwydd oed, ac mae'n byw drws nesa ers deugain mlynedd. Bob nos i frecwast mae'n yfed creision ŷd, ac mae'n bwyta panaid o halen. Mae'n gwisgo crys du ar ei draed, ac mae'n cadw ei gar yn ei bwll nofio. Mae dau fab 'da fe – Horace sydd yn gan mlwydd oed, a Beatrice, sy'n gweithio yn y stafell molchi leol. Mae'r holl deulu'n dod i Locgr ar eu gwyliau – maen nhw'n mwynhau bod o dan y traeth pan mae'r haul yn bwrw.

Sgwrs 

Mrs Jenkins is being interviewed for a local radio programme

- A: Nawr 'te, Mrs Jenkins – yn gynta, fedrwrch chi ddeud 'tha i lle a pryd 'gawsoch chi'ch geni?
- Mrs J: Wel, yn Nolgellau 'ges i ngeni, ym mil naw dim wyth.
- A: Ac ers pryd dach chi'n byw fan hyn?
- Mrs J: Dw i'n byw yn y bwthyn 'ma ers i mi fod yn ddeg oed. Byw ar 'y mhen 'n hun ydw i nawr, cofiwch. Bu farw ngŵr 'dair blynedd yn ôl yn wythdeg tair oed.
- A: Oes gynnoch chi 'deulu yn yr ardal?
- Mrs J: Oes, oes – mae gen i ddau fab. Mae'r un yn byw ochor draw i'r nant, a'r llall yn byw lawr yn y 'dre efo'i 'wraig a teulu. Ac mae gen i lu o wyrion hefyd, 'wyddoch chi. Chwech ohonyn ahw i gyd.

- A: A sut mae byw fan'ma ar ochor y mynydd? Ydy hi'n galed i rywun mewn oed fel chi?
- Mrs J: Ydy, weithiau – ond symuda i ddim rŵan. Ac mae'r teulu yn 'gefnogol, cofiwch. Os bydd angen rhywbeth arna i yn ystod y tywydd garw, bydd un o rheulu 'bob tro yn 'barod i'n helpu.
- A: Diolch yn fawr i chi, Mrs Jenkins, am rannu ychydig o'ch hanes â ni.
- Mrs J: Wel, diolch yn fawr i chithau i gyd am ddod i ngweld i.

Geirfa

bwthyn cottage
ochor draw (i) on the other/
 far side of ...
nant (f) stream
llu large number; host
mynydd mountain
caled hard

mewn oed of an age; elderly
cefnogol supportive
yn ystod during
tywydd garw severe weather
rhannu share
hanes history; story
chithau you (emphatic – Lesson 14)

Asking and giving the date

Beth ydy/yw 'r dyddiad heddiw? What date is it today?

The months (**y misoedd**) in Welsh are:

Ionawr	January	Gorffennaf	July
Chwefror	February	Awst	August
Mawrth	March	Medi	September
Ebrill	April	Hydref	October
Mai	May	Tachwedd	November
Mehefin	June	Rhagfyr	December

The ordinal numbers needed for dates are:

1st	cynta	6th	chweched
2nd	ail	7th	seithfed
3rd	trydydd	8th	wythfed
4th	pedwerydd	9th	nawfed
5th	pumed	10th	degfed

The vigesimal (20-based) system is used from 11 onwards in dates:

11th yr unfed ar ddeg	21st yr unfed ar hugain
12th y deuddegfed	22nd yr ail ar hugain
13th y trydydd ar ddeg	23rd y trydydd ar hugain
14th y pedwerydd ar ddeg	24th y pedwerydd ar hugain
15th y pymthegfed	25th y pumed ar hugain
16th yr unfed ar bymtheg	26th y chweched ar hugain
17th yr ail ar bymtheg	27th y seithfed ar hugain
18th y deunawfed	28th yr wythfed ar hugain
19th y pedwerydd ar bymtheg	29th y nawfed ar hugain
20th yr ugeinfed	30th y degfed ar hugain
	31st yr unfed ar ddeg ar hugain

'On the ... of ...' is **Ar y ... o fis ...**: **Ar y chweched ar hugain o fis Tachwedd** *On the 26th of November.*

Yr ieithoedd Celtaidd – the Celtic languages (I)

We have seen how to talk about years and dates in this lesson – now for a bit of (early) history.

Welsh is a member of the Celtic branch of the Indo-European family that includes most of today's European languages. Celtic languages were at one time spoken over large areas of the European continent – these languages, all now long dead, constituted the Continental Celtic branch of the family. Another group of Celtic languages established themselves on the islands in the North-west of the continent, and represent the Insular Celtic branch. They are represented today by six languages, which fall into two groups: the Brythonic group comprising Welsh (**Cymraeg**), Cornish (**Cernyweg**) and Breton (**Llydaweg**); and the Goidelic group, comprising Irish (**Gwyddeleg**), Scots Gaelic (**Gaeleg yr Alban**) and Manx (**Manaweg**). The three Brythonic languages are closely and visibly related, as are the three Goidelic languages. But the two *groups* of language do not look very similar at all, and they certainly sound different.

Within the Brythonic group, Cornish and Breton are more closely related to each other than either is to Welsh – Breton, spoken in the northwestern corner of France (it is the only Celtic language now spoken on the continent of Europe), was taken there by Brythonic-speaking peoples fleeing the south-west of England before the onslaught of Germanic tribes around the sixth century.

Since then, of course, it has developed in its own way, and under increasing influence of French, but its similarity to Cornish, both in structure and vocabulary, is unmistakable.

Within the Goidelic group, Scots Gaelic and Manx are both direct descendants of the Irish transplanted to Scotland and the Isle of Man at an early date. Both are sufficiently different now from Irish to preclude any mutual intelligibility, though Scots Gaelic shows similarities to northern Irish dialects such as Donegal, and Manx, though drastically simplified in structure, has things in common with both Irish and Scots Gaelic.

The **diwylliant culture** that these six languages represent is a common one, and an interest in Welsh is a good **man cychwyn starting point** for an exploration of the **gwareiddiad Celtaidd Celtic civilisation** which is part of the **etifeddiaeth ddiwylliannol cultural heritage** of all **â'u gwreiddiau yn yr Ynysoedd Prydeinig with roots in the British Isles**. You will find some suggestions for further reading on p. 237.

11 Beth wyt ti'n feddwl?

What do you think?

In this lesson you will learn how to:

- ask and express opinions
- give reasons for opinions
- report what other people have told you
- make compound sentences
- compare things

Sgwrs

Medi has come in for an interview for a job she has applied (ymgeisio) for. The Personnel Manager (rheolwr personél) is looking at her CV

- RHEOLWR: Dw i'n gweld fan hyn bo chi'n siarad Almaeneg. Lle ddysgoch chi?
- MEDI: Yn yr Almaen. Dreulies i ddwy flynedd yno ar ôl gorf-fen yn y Brifysgol. Weles i yn yr hysbyseb bod gwybodaeth o ieithoedd estron yn fantais i'r swydd 'ma.
- R: Dych chi'n gwybod y bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus deithio?
- M: Ydw. 'Na un o'r prif resymau i mi ymgeisio, a dweud y gwir.
- R: Ac mae'n dweud dros y dudalen fan hyn bod gyda chi radd mewn Seicoleg. Dw i'n siwr y bydd hynny'n fantais hefyd os gewch chi swydd gyda'r cwmni 'ma.
- M: Pam? Achos bydda i'n gallu dod ymlaen â phobol eraill yn dda, chi'n meddwl?
- R: Na. Gellwch chi esbonio i mi pam na roddes i'r gorau i'r swydd ofnadwy 'ma flynyddoedd yn ôl.

Geirfa

yr Almaen	Germany	ymgeisydd	applicant
treulio	spend (time)	llwyddiannus	successful
prifysgol (f)	university	rheswm	reason
hysbyseb (-ion) (f)	advert	gradd	degree
gwybodaeth (f)	knowledge	dod ymlaen â	get on with
estron	foreign	esbonio	explain
mantais (f)	advantage	rhoi'r gorau i	give up

Sgwrs

Paula and Christine are discussing the new supermarket that is coming to town

- PAULA: Glywest ti fod archfarchnad newydd yn dod i'r dre?
- CHRISTINE: Do. Roedd yn y papur lleol bod nhw'n bwriadu lleoli hi ar ymylon y dre.
- P: 'Na ryfedd – glywes i fod y gymuned fusnes yn erbyn y syniad 'na.
- C: Maen nhw wedi ailfeddwl. Mae rhyw sôn erbyn hyn fod y cyngor yn mynd i ddarparu ffordd osgoi. Bydd yr archfarchnad yn rhan o'r cynllun.
- P: Ond bydd hynny'n golygu na fydd pobol heb gar yn gallu siopa yno!
- C: Mae'n debyg y bydd gwasanaeth minibws o'r dre.

Geirfa

lleoli	locate	mae rhyw sôn	there's talk
ymylon (pl) (here)	outskirts	erbyn hyn	now
'na ryfedd	that's odd	darparu	provide
cymuned (f)	community	ffordd osgoi	by-pass
yn erbyn	against	cynllun	plan
maen nhw wedi ailfeddwl	they've changed their minds	golygu	mean
		gwasanaeth	service

Compound sentences and reported speech

In English we use the word 'that' to form compound sentences (sentences consisting of two parts) and to report the words of others. The part of the sentence after the 'that' is called the 'that'-clause.

'You are learning Welsh'

My neighbour says *that* you are learning Welsh

'That'-clauses are also found after verbs like 'think', 'know', 'hear', 'be sure', etc.; and after **gobeithio** (*I hope*).

'Iwan will be back later'

I think *that* Iwan will be back later.

In Welsh the way to form a compound sentence or report speech (i.e. form the 'that'-clause) depends on what begins the simple (original) sentence. For now we will deal with two possibilities which cover the overwhelming majority of cases:

- 1 the original sentence to be reported begins with some form of the present tense of **bod**;
- 2 the original sentence to be reported begins with some other verb-form.

If option 1 applies, then the present tense form of **bod** is replaced by the appropriate form from *either* of the two sets below:

sing. 1	mod i	bo fi	that I (am) . . .
2	fod ti	bo ti	that you (are) . . .
3m	fod e	bo fe	that he (is) . . .
f	bod hi	bo hi	that she (is) . . .
plur. 1	bod ni	bo ni	that we (are) . . .
2	bod chi	bo chi	that you (are) . . .
3	bod nhw	bo nhw	that they (are) . . .

These two sets are interchangeable – use whichever is found in your area. Don't let anyone tell you that the simpler **bo**-set is somehow 'wrong', just because it is simpler.

You will see that, whichever set you use, the verb and the idea of 'that' are both contained in the first element. Look at how this works in practice:

[original sentence]	Dych chi'n dysgu Cymraeg You are learning Welsh
[reported]	bod chi'n dysgu Cymraeg <i>that you are learning Welsh</i>

The verb-form **dych** is 'swallowed up' by the **bod** – the pronoun **chi** remains, of course.

Further examples:
[original]

Mae e'n sâl bore 'ma

[reported]

fod e'n sâl bore 'ma

. . . *that he is ill this morning*

[original]

Dw i'n mynd i Gaer

[reported]

mod i'n mynd i Gaer

. . . *that I am going to Chester*

[original]

Maen nhw tu allan rhywle

[reported]

bod nhw tu allan rhywle

. . . *that they are outside somewhere*

Remember that **bo fe**, **bo fi** and **bo nhw** would have been possible as well.

Where a noun rather than a pronoun is involved, you can use either **bod** or **fod** – it does not have anything to do with masculine or feminine. So, for example:

[original]

Mae Delyth yn dod heno

Delyth is coming tonight

[reported]

fod/bod Delyth yn dod heno

. . . *that Delyth is coming tonight*

Exercise 1

Turn the following originals into reported speech using **Dw i'n meddwl** . . . *I think* . . . Use the longer (**mod i** . . . etc.) forms for this exercise.

Example:

Mae hi'n siarad Cymraeg yn rhugl

She speaks Welsh fluently

– **Dw i'n meddwl bod hi'n siarad Cymraeg yn rhugl**

I think *that she* speaks Welsh fluently

1 **Dw i'n mynd i chwydu.**

I'm going to be sick.

2 **Maen nhw yn erbyn y syniad.**

They are against the idea.

3 **Dyn ni angen mwy o amser.**

We need more time.

4 **Dych chi wedi nghamddeall i.**

You have misunderstood me.

5 **Mae'n bwrw eira.**

It's snowing [careful!].

6 **Mae e'n aros tu allan.**

He's waiting outside.

Phrases like **O't ti'n gwybod . . . ?**, **O'ch chi'n gwybod . . . ?** *Did you know . . . ?*, **O'n i'n meddwl . . .** *I thought . . .* and **O'n i ddim yn gwybod . . .** *I didn't know . . .* will also be followed by the **fod**-type clause if the *original* sentence is in the present. For example, 'Did you know that he spoke Welsh?' goes back to the idea 'He speaks Welsh' (*Mae'n siarad Cymraeg*) – so **O't ti'n gwybod fod e'n siarad Cymraeg?**

The other option is when the original begins with a verb other than the present tense of **bod** – this can be either a completely different verb, or a different tense of **bod** (e.g. future). In this case, nothing is done to the verb, except that affirmative markers **fe'** and **mi'** (see Lesson 7) and/or any SM is removed; and the word for 'that' will be **y** – but in Colloquial Welsh this is often not heard. So, if the original was

Fe ddylen nhw fod yn ofalus They ought to be careful
this will become

... (y) **dylen nhw fod yn ofalus** ... that they ought to be ...
because **dylen nhw** is not part of the verb **bod**. Similarly,

Fyddda i yn ôl erbyn saith I'll be back by seven
becomes

... (y) **bydda i yn ôl erbyn saith** ... that I'll be back by seven
because, although **bydda i** is part of **bod**, it is not in the present tense.

Exercise 2

Turn the following simple sentences into compound ones using **Dw i ddim yn siwr** *I'm not sure . . .*. Pay attention to the verb at the start.

- 1 Mae hynny'n iawn.
- 2 Dych chi i fod i wneud 'ny.
- 3 Fe fyddwn ni mewn pryd.
- 4 Mi ddylset ti ddeud wrtho.
- 5 Mae digon o fwyd ar ôl.
- 6 Dw i'n gallu dod o hyd iddyn nhw nawr.

Geirfa

i **fod** (i) supposed (to) **dod o hyd** (i) find

Negative compound sentences/reported speech – 'that . . . not . . .'

For reporting NEG originals, the **mod i/bo fi** type presents no problems:

[orig.] **Dw i ddim yn gallu dod heno**
I can't come tonight

[rep.] ... **mod i ddim yn gallu** ...
... *that I can't* ...

[orig.] **Dyw Siôn ddim yn hoffi gweithio trwy'r dydd yn y ffatri**
Siôn doesn't like working all day in the factory

[rep.] ... **fod Siôn ddim yn hoffi gweithio** ...
... *that Siôn doesn't like working* ...

For the (y)-type, replace **y** by **na'** (sometimes AM) *that . . . not . . .*. The **ddim** in the original can remain or be dropped:

[orig.] **Ddôn nhw ddim yn ôl nawr**
They will not come back now

[rep.] **Gobeithio na ddôn nhw (ddim) yn ôl nawr**
I hope that they will not come back now

[orig.] **Fydd Sioned ddim yn ymddangos ar y llwyfan heno**
Sioned will not be appearing on stage tonight

[rep.] **Mae'n debyg na fydd Sioned (ddim) yn ymddangos** ...
It's likely that Sioned will not be appearing . . .

Exercise 3

Check your answers for the last exercise in the key at the back. Now alter the six reported speech sentences by starting with **Dw i'n siwr** *I'm sure . . .*, and making the reported speech negative instead. The first sentence is done for you.

1 Dw i'n siwr **fod** hynny *adim* yn iawn.

2

3

4

5
6**Exercise 4**

Fill in the blanks from the box.

bod	fod	i
bod	na	yn
hi	mod	dy
na	ddim	'da

- 1 Mae Sioned yn dweud _____ chi'n bwriadu mynd _____ gynnar.
- 2 Wyt ti'n siwr _____ nhw _____ yn dod heno?
- 3 Wedodd _____ gariad _____ ti'n hynod o gryf.
- 4 Mae'n bosib _____ fydd digon o amser _____ ni.
- 5 Dw _____ 'n siwr _____ i'n iawn.
- 6 Gobeithio _____ ddaw _____ â'i rhieni.

Asking and giving opinions

The following phrases are useful in finding out what other people think:

Beth dych chi'n feddwl am' ...?	What do you think about ...?
Beth yw/ydy'ch barn am' ...?	What is your opinion of ...?
Dych chi o blaid ...?	Are you in favour of ...?
Dych chi yn erbyn ...?	Are you against ...?
Dych chi'n cefnogi ...?	Do you support ...?
Dych chi'n meddwl fod/(y) ...?	Do you think that ...?

Meddwl is used for *think* here, but in many S areas you will hear **credu** instead.Answers will involve **fod** (or one of its variants), or **y**, depending on the sentence:

Dw i'n meddwl fod ...	I think that ...
Dw i ddim yn meddwl fod ...	I don't think that ...
Dw i'n siwr fod ...	I'm sure that ...
Dw i'n eitha siwr fod ...	I'm fairly certain that ...
Dw i ddim yn siwr fod ...	I'm not sure that ...

Mae'n amlwg fod ...	It's clear/obvious that ...
Rhaid i mi ddweud fod ...	I must say that ...
Does dim dwywaith fod ...	There's no doubt that ...
All neb wadu fod ...	No-one can deny that ...
Rhaid cyfadde fod ...	It has to be admitted that ...
Ddylen ni ddim anghofio fod ...	We shouldn't forget that ...
Mae'n bosib fod ...	It's possible that ...
Mae'n debyg fod ...	It's likely that ...
(Fe/Mi) Alla i'ch sicrhau fod ...	I can assure you that ...

Sicr is a common alternative to **siwr** in many areas.In addition, **efallai** *perhaps* (**falle** in S speech, **ella** in N speech), and **hwyrach** *perhaps* (N areas) are followed by 'that'-clauses in Welsh – 'Perhaps he is ill' will be **efallai fod e'n sâl**, literally 'perhaps that he is ill'.

Efallai bod chi'n iawn, ond ...	Perhaps you're right, but ...
Efallai fod hynny'n wir, ond ...	That may be true, but ...

Exercise 5

Unscramble the sentences

- 1 cyfadde chi iawn rhaid 'n bod
- 2 fod deall 'n ddim amlwg yn mae ti
- 3 fod siop gau ti mynd ? leol y yn glywest i
- 4 nhw na 'n grac gobeithio fyddan
- 5 credu dylen i fynd y 'n ni dw nawr
- 6 i fod ôl eitha ar caws dw peth siwr 'n

Giving reasons**Achos** is the usual word for *because* in Colloquial Welsh – **oherwydd** is sometimes heard with the same meaning. Both are followed by 'that'-clauses:

- ... **achos bod hi'n rhy hwyr i ymgeisio am y swydd 'ma**
... because it's too late to apply for this job
[lit. 'because that it is too late ...']
- ... **achos fod y gweithdai ar gau am weddill yr wythnos**
... because the workshops are closed for the rest of the week
- ... **achos mod i ddim yn cytuno â nhw**
... because I don't agree with them

- ... **achos** (y) **dylwn i ymarfer Nghymraeg gyda nghydweithwyr**
 ... because I ought to practise my Welsh with my workmates
 ... **achos na fydd amser 'da fi yfory**
 ... because I won't have time tomorrow

Exercise 6

If you want to get out of doing something, it's best to give an excuse and this will involve **achos** + 'that'-clause in Welsh. Start the excuse with something apologetic like:

- Yn anffodus, alla i ddim + VN** Unfortunately I can't ...
 or **Gwaetha'r modd, 'sdim modd** Alas, there's no way I can ...
imi 'VN

Formulate excuses for the following situations, using the key-words provided. Complete sentences in Welsh, please.

- Example: *wash the car* [**mae twll yn y bwced**]
 - **Alla i ddim golchi'r car, achos fod twll yn y bwced**

- tidy the room* [**mae nghoes yn rhoi dolur**]
- come to the party tomorrow night* [**dw i'n gorfod trwsio'r peirian golchi llestri**]
- invite you in* [**mae'r lle'n llanast**]
- speak English at the moment* [**mae rhaid i mi ymarfer Nghymraeg**]
- answer the phone* [**mae Cymru ar fin sgorio**]
- buy you a drink* [**ti'n feddw gaib yn barod**]

Geirfa

tacluso tidy	
gorfod have to	mae'r lle'n llanast
trwsio mend	the place is a tip
gwahodd invite	meddw gaib completely drunk

Other words that are followed by a 'that'-clause

A variety of conjunctions, or 'link-words', are followed by the same 'that ...' constructions explained above:

er although	onibai unless
fel so (that)	rhag ofn in case
(hyd) nes until	tra while

Awn ni ymlaen, onibai bo chi'n anghytuno

We'll go ahead, unless you disagree

Er fod y sefyllfa'n un anodd, fe nawn ni'n gorau

Although the situation is a difficult one, we'll do our best

Cuddiwch nhw, rhag ofn bod rhywun yn sylwi

Hide them, in case someone notices

Mi nes i hyn heddiw fel na eith dim byd yn chwith yfory

I did this today so that nothing will go wrong tomorrow

Arhoswch fan hyn nes (y) bydd rhywun yn dod

or **Arhoswch fan hyn nes (y) daw rhywun**

Wait here till someone comes (lit. '... will come')

In addition, the prepositions **am** and **gan** are used with following 'that'-clause to mean *because/since*:

Mae'n amhosib ar hyn o bryd am fod hanner y dosbarth yn absennol

It's impossible at the moment *since* half the class are absent

Exercise 7

Cyfieithwch i'r Gymraeg

- I won't go unless you (ti) promise to come with me.
- Let's keep quiet until somebody asks.
- Look in the fridge for the cheese while I cut the bread.
- He can understand Welsh, although he can't speak [it] fluently.
- I'll put this in the cupboard in case someone calls.
- You (chi) can't come in unless you have a ticket.

Geirfa

addo promise	oergell (f) fridge
cadw keep	yn rhugl fluently
tawel quiet	cwpwrdd cupboard

Comparison of adjectives – ‘-er’, ‘-est’; ‘more . . .’, ‘most . . .’

Welsh uses the endings **-ach** corresponding to *-er* and *-a* corresponding to *-est* in English. So from **ysgafn** *light* (weight) we can form **ysgafnach** *lighter* and **ysgafna** *lightest*. Similarly **agos** *close*, **agosach** *closer*, **agosa** *closest*; **hardd** *beautiful*, **harddach** *more beautiful*, **hardda** *most beautiful*; **doniol** *funny*, **doniolach** *funnier* and **doniola** *funniest*.

Adjectives ending in **-b**, **-d**, **-g** change these to **-p**, **-t**, **-c** respectively

gwlyb <i>wet</i>	gwlypach <i>wetter</i>	gwlypa <i>wettest</i>
caled <i>hard</i>	caletach <i>harder</i>	caleta <i>hardest</i>
teg <i>fair</i>	tecach <i>fairer</i>	teca <i>fairest</i>

Some adjectives undergo a vowel change when these endings are added: **trwm** *heavy*, **trymach**, **tryma**; **flawd** *poor*, **flotach**, **flota**.

As in English, the endings are generally restricted to adjectives that are not too long – **harddach** is fine in Welsh, but the English equivalent is not ‘*beautifuller*’ but *more beautiful*. This same method is used in Welsh with longer words – **mwy** *more* and **mwyfa** *most* are put in front of the adjective, e.g. **pryderus** *anxious*, **mwy pryderus** *more anxious*, **mwyfa pryderus** *most anxious*.

‘Than’ with comparatives is **na** (AM), or **nag** before vowels:

Mae Ioan yn dalach na Rhys	Ioan is taller than Rhys
Mae Medi'n dalach nag Eleri	Medi is taller than Eleri

Irregular comparison of adjectives

Some adjectives in Welsh have irregular forms for the comparative and superlative:

da <i>good</i>	gwell <i>better</i>	gorau <i>best</i>
drwg <i>bad</i>	gwaeth <i>worse</i>	gwaetha <i>worst</i>
mawr <i>big</i>	mwy <i>bigger</i>	mwyfa <i>biggest</i>
bach <i>small</i>	llai <i>smaller</i>	lleia <i>smallest</i>
uchel <i>high</i>	uwch <i>higher</i>	ucha <i>highest</i>
isel <i>low</i>	is <i>lower</i>	isa <i>lowest</i>

Ifanc *young* and **hen** *old* are regular in many areas, but **iau** is not unusual for *younger*; as also **hŷn** *older* and **hyna** *oldest*.

In more formal Welsh the superlative ending **-a** is written **-af**: **agosaf**, **uchaf**, **mwyaf**.

Sentence structure with superlatives

When we wish to single out one particular thing by saying that it is ‘the *-est*’, this is an identification sentence, and so will require a special word order in Welsh. Just as we say **Pwy ydy hwnnw?** *Who is that?*, and answer with the same word-order **Elwyn ydy hwnnw** *That's Elwyn* (go back to Lesson 1 and review this if you are uncertain), so a sentence like *Which is the highest mountain in Wales?* (**P'un ydy'r mynydd ucha yng Nghymru?**) will have the answer **Yr Wyddfa ydy'r mynydd ucha yng Nghymru** *Snowdon is the highest mountain in Wales*. This is true even if the underlying question has not been asked – the person or thing singled out for attention comes first, with the verb in second place; and this means that in present tense **bod** sentences, we need **ydwy** and not **Mae**.

Comparative (‘*-er*’) sentences, on the other hand, simply look at two things and compare them without singling either of them out. These, then, are ordinary verb-first sentences. Compare:

Mae'r crys coch yn ddrutach na'r crys gwyn

The red shirt is dearer than the white shirt

but **Y crys glas yw'r druta ohonyn nhw i gyd**

The blue shirt is the dearest of them all

Exercise 8

Read the sandwich price-list below, and correct any of the following statements that need correcting:

BRECHDANAU:

caws 75c	jam 60c
cig moch 95c	selsig-a-marmalêd 90c
wy 70c	banana 85c
mêl 80c	cyw iâr 90c

(**rhad** *cheap*; **drud** *dear*)

- 1 Mae cig moch yn ddrutach na selsig-a-marmalêd.
- 2 Mae banana'n rhatach na chaws.

- 3 Cig moch ydy'r druta ohonyn nhw i gyd.
 4 Mae cyw iâr yn rhatach na chig moch, ond yn ddrutach na mêl.
 5 Wy ydy'r rhata ohonyn nhw i gyd.
 6 Mae selsig-a-marmalêd yn ddrutach na chaws, ond yn rhatach na banana.

Exercise 9

Unscramble the sentences of the following dialogue:

A: arafach di ? yn siarad alli

B: yn yn 'n siarad dw barod araf i

A: ti araf mi yn yn ddim i ddigon siarad wel,

B: i drio na 'te arafu,

Geirfa

yn barod already arafu slow down

How to say 'as . . . as . . .'

'As . . . as . . .' is **mor** . . . **â** (ag before vowels) . . . Words beginning **ll-** and **rh-** do *not* mutate, however: **mor goch â . . . as red as . . .**, but **mor llwyd â . . . as grey as . . .**. You can use optional AM after **â** (particularly words beginning **e-**).

Mor gyffym â cheffyl	As fast as a horse
Mor werthfawr ag arian	As precious as silver
Mor ddu â'r frân	As black as a [the] crow

You should also know the words **cystal** (**â**) *as good (as)*, **cymaint** *as big (also as much/many)* and **cynlleied** *as little (also as few)*. And the expressions **cyn gynted ag y bo modd** and **cyn gynted â phosib**, both meaning *as soon as possible*.

You can use **Yr un mor** . . . **â** (ag) . . . to express *Just (equally) as . . . as . . .*:

Mae hon yr un mor ddrud â honno
 This (one) is just as dear as that (one)

On its own, **mor** means 'so . . .'. When used with the verb **bod**, it displaces the link-word **yn**:

Mae nghymdogion i'n garedig My neighbours are kind
Mae nghymdogion i mor garedig My neighbours are so kind

Exercise 10

Fill in the gaps from the box:

- Mae'r tywydd _____ ddifflas heddiw, _____ ydy?
- Ydy'r crys 'ma _____ well _____ 'r un 'na, ti'n meddwl?
- Mae Abertawe'n _____ Abercystwyth.
- Ond Caerdydd _____ 'r ddinas _____ yng Nghymru.
- Dyw hi ddim _____ oer _____ oedd hi ddoc.
- Ti'n edrych _____ flinedig _____ fi.

fwy	mor	â	'n	ydy	mor	on'd
un	fwya	mor	yr	nag	ag	na

Mai . . . - 'that . . .'

We saw earlier in the lesson that how you form the 'that'-clause for reported speech depends on how the original sentence starts in Welsh. With *identification* sentences, including those involving superlatives (see above), the verb does not come first – some other element is in its place. In this case, Welsh simply inserts the word **mai** *that* and leaves everything else unchanged – this is the way we always do it in English.

[orig.] **Yr Wyddfa yw'r mynydd ucha yng Nghymru**
 Snowdon is the highest mountain in Wales

[rep.] **Dw i'n meddwl mai'r Wyddfa yw'r mynydd ucha yng Nghymru**
 I think that Snowdon is the highest mountain in Wales

From what we know of 'that'-clauses in Welsh already, this makes perfect sense – generally the formation of the 'that'-clause depends on what type of verb *starts* the original sentence. But where there is no verb at the start (it is further on down the line), that option is closed to us, and a true word for 'that' is needed instead.

In many S areas, **taw** is used instead of **mai**:

Wi'n credu taw'r Wyddfa yw'r mynydd ucha yng Nghymru

And in some N areas **na** is used instead of **mai**.

Finally, remember that for most instances of 'that'-clauses in English, it is possible to leave out the 'that' - 'I think that they'll be late' or 'I think they'll be late'. You are still dealing with a 'that' clause even if you can't see the 'that'!

Exercise 11

Cyfieithwch i'r Gymraeg

- 1 I'm pretty sure that this house is for sale.
- 2 It's obvious you (**ti**) don't know the facts.
- 3 I hear that Ceri is writing a book about (**am**) Welsh.
- 4 But I thought he was a town planner.
- 5 Perhaps he teaches Welsh as a hobby.
- 6 I hope he knows what he's doing.

Geirfa

ar werth for sale
ffeithiau facts

cynllunyydd tre town planner
hobi hobby

12 Clywed y newyddion

Hearing the news

In this lesson you will learn how to:

- say that something *has* happened
- say that something *has been* or *had been*
- use compound prepositions
- say that something is *still* happening
- say that something usually happens, or used to, and how often

Adroddiad newyddion (news report)

Mae'r llywodraeth wedi datgan prynhawn 'ma fod y nifer o blant dan bedair oed yn mynychu ysgolion meithrin yn Ne Ddwyrain Cymru wedi dyblu ers llynedd. Dwedodd llefarydd ar ran y Swyddfa Gymreig hefyd fod y nifer o ddsbarthiadau Cymraeg i oedolion dros Gymru gyfan wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y deng mis diwetha. Ond mae'r gwrthbleidiau wedi ymosod ar gynlluniau'r llywodraeth i gau ysgolion cynradd bychain mewn ardaloedd gwledig, gan honni fod 'na gryn wrthwynebiad wedi bod i'r syniad yn y cymunedau lleol, a bod y fath weithred yn mynd i effeithio'n ddifrifol ar yr iaith Gymraeg yn ei chadarnleoedd. Mae'r Adran Addysg wedi addo y bydd pobol leol yn cael lleisio'u barn mewn cyfarfodydd agored ledled y wlad cyn diwedd y flwyddyn.

Geirfa

llywodraeth (f) government
datgan announce
nifer (o) number
ysgol feithrin Welsh language
nursery school

cynradd primary
bychan (pl. bychain) small
gwledig rural
honni claim
gwrthwynebiad opposition

dyblu (to) double
ilefarydd spokesman,
 spokeswoman
ar ran on behalf of
cynyddu increase
yn aruthrol hugely
yn ystod during
oedolyn (pl. **oedolion**) adult
gwrthblaid opposition party

gweithred action
effeithio (ar) affect; have an
 effect on
yn ddifrifol seriously
cadarnle (-oedd) stronghold
Adran Addysg Department of
 Education
lleisio voice, express
agored open

Sgwrs

Iestyn has some earth-shattering news to impart to Aled

- IESTYN: Glywest ti'r newyddion?
 ALED: Naddo. Be' sy wedi digwydd?
 I: Ti ddim wedi clywed, 'te?
 A: Dw i newydd weud bo fi ddim.
 I: Wel, mae hynny'n anhygoel - lle wyt ti wedi bod trwy'r
 wythnos, mewn ogof rhywle? Mae hi wedi bod ar y teledu,
 mae wedi bod yn y papurau newydd, mae wedi bod . . .
 A: Ti 'di gwneud yn ddigon eglur fod rhywbeth wedi dig-
 wydd, Iestyn, ond ti dal i fod heb weud beth.
 I: Alla i ddim credu fod ti heb glywed, 'na i gyd!
 A: Dw i heb glywed dim - iawn?
 I: Iawn. Ond . . . wel, byddi di'n cael sioc go dda pan weda i
 wrthat ti - 'na'r cwblwll alla i weud.
 A: O, gad fe, Ies. Dw i 'di colli diddordeb erbyn hyn.

Geirfa

anhygoel incredible **'na i gyd** that's all
ogof (f) cave **sioc go dda** quite a shock
eglur clear **gad fe** leave it; let it be
dal (here) still **diddordeb** interest

Dw i wedi . . . - 'I have (done something)'

The preterite, which we met in Lesson 9, corresponds to the ordi-
 nary past tense in English - **dw i'n gweld** *I see* or *I am seeing*
 becomes **wes i** *I saw*. But there is another past tense, traditionally

termed the perfect, which corresponds to English 'I have seen'. To
 form this tense in Colloquial Welsh, we simply take the present
 tense of the verb, and change the 'linking' **yn** into **wedi**:

Dw i 'n gweld	I see
Dw i wedi gweld	I have seen
Mae Lloegr yn colli	England are losing
Mae Lloegr wedi colli	England have lost
Dach chi'n darllen y papur 'na?	Are you reading that paper?
Dach chi wedi darllen y papur 'na?	Have you read that paper?
Yn ni ddim yn siarad ag e	{ We don't speak to him We're not speaking to him
Yn ni ddim wedi siarad ag e	

In Colloquial Welsh **wedi** is often shortened to '**di**: **Dw i 'di deud**
 'that ti unwaith yn barod *I've told you once already*.

You will see that the present and perfect are much more similar
 in Welsh than in English: in Welsh, the verb and the VN remain
 the same, and only one word linking them is changed; in English the
 form of the verb changes, and 'have' or 'has' is introduced in
 the perfect.

Exercise 1

Match the Welsh sentences to their English equivalents

- | | |
|---|------------------------------------|
| 1 Dych chi wedi gweld yr hysbyseb? | (a) Do you read the adverts? |
| 2 Wyt ti'n darllen yr hysbysebion? | (b) Have you advertised them? |
| 3 Dych chi'n darllen yr hysbyseb? | (c) Have you seen the advert? |
| 4 Dych chi wedi hysbysebu nhw? | (d) Have you advertised it? |
| 5 Wyt ti wedi hysbysebu fe? | (e) Do you see the advert? |
| 6 Wyt ti'n gweld yr hysbyseb? | (f) Are you reading the
advert? |

Exercise 2

Cyfieithwch i'r Gymraeg

- Have you (**ti**) seen Delyth?
- Has the post gone yet?
- You (**chi**) have forgotten to sign the cheque.
- My keys have disappeared again!

- 5 Ronnie and Fifi have gone to North Wales for a fortnight.
6 Have they taken their passports?

O'n i wedi . . . – 'I had (done something)'

Just as you can turn the present into 'I have (done something)' by changing **yn** to **wedi**, so you can change the *imperfect* into 'I had (done something)' (traditionally called the *pluperfect*) by the same method:

O'n i'n rhedeg lawr y stryd	I was running down the road
O'n i wedi rhedeg lawr y stryd	I had run down the road
O'n nhw'n cyrraedd	They were arriving
O'n nhw wedi cyrraedd	They had arrived
Oedd Amanda'n sgrifennu llythyr	Amanda was writing a letter
Oedd Amanda wedi sgrifennu llythyr	Amanda had written a letter

Exercise 3

Not only do the following pairs of Welsh and English sentences not match, but some of the **yn**'s and **wedi**'s are mixed up as well. First match, and then alter **yn**'s and **wedi**'s as appropriate.

- | | |
|--------------------------------|-------------------------------|
| 1 Mae Fred yn mynd am yr arian | (a) Fred has lost his money |
| 2 Mae Fred yn colli'r bws | (b) Fred's money has gone |
| 3 Mae Fred wedi colli'r gêm | (c) Fred's gone for the money |
| 4 Mae Fred wedi colli'r gêm | (d) Fred has lost the game |
| 5 Mac arian Fred yn mynd | (e) Fred has missed the bus |
| 6 Mae Fred wedi colli ei arian | (f) Fred's losing the game |

'... have been . . .', '... had been . . .'

To form the perfect and pluperfect of 'be', we put the VN **bod** after the **wedi**:

Dw i wedi bod yn sâl	I have been ill
O'n i wedi bod yn sâl	I had been ill

You can add another VN to **wedi bod** by means of **yn** to express 'have/had been . . . -ing':

Dan ni wedi bod yn ymweld â fo'n fwy cyson yn ddiweddar
We have been visiting him more regularly of late
Dydy o ddim wedi bod yn gwneud ei waith cartre
He hasn't been doing his homework

Exercise 4

Cyfieithwch i'r Gymraeg

- 1 Have you (**ti**) been drawing pictures on the walls again?
- 2 These two men have been waiting for you since two o'clock.
- 3 I have been out of the office all day.
- 4 I hope you've all been practising your Welsh.
- 5 They've been promising to come round since Christmas.
- 6 I hear that your (**eich**) brother has been working in Cardiff for quite a while now.

Geirfa

tynnu lluniau draw pictures

addo promise

aros am wait for

ers amser for quite a while now


Sgwrs

It is Christmas (Nadolig, or Dolig), and there is a family reunion in the Llwyd family. Marc, a keen photographer (ffotograffydd brwd), has been delegated to take a family photo (llun o'r teulu). No-one else is getting a word in edgewise

MARC: Iawn – dw i eisiau i chi i gyd fod o flaen y goeden Nadolig draw fan'na. 'Na ni. Elinor, ti'n rhy fyr o lawer i sefyll lle wyt ti – fydd neb yn dy weld di. Well i ti sefyll ar bwys mamgu. Neu os bydd Ieuan yn sefyll ar ei phwys hi, gelli di symud draw fan hyn. Ac wedyn . . . Sioned – nei di eistedd ar bwys Gerwyn, yn lle Rhodri? Rhodri – rhaid i ti symud hefyd. Elli di sefyll wrth ochor y goeden – 'na fe, wrth ei hochor hi? I'r dim. Wps, na'r gath yn trio dianc – rhed ar ei hôl hi, rywun. Nawr 'te, oes 'na unrhywun arall yn sefyll neu'n eistedd lle na ddylen nhw fod? Pawb yn barod, 'te?

SIONED: Ond Marc . . .

M: Paid torri ar nhraws i, Sioned – dw i'n trio trefnu pethau fan hyn. Felly . . . le o'n i? O, ie . . . nawr 'te, mae'r gath yn



edrych braidd yn anghyfforddus ar y goeden, on'd ydy? Rhowch hi ar y llawr o flaen mamgu. Iawn – dw i'n mynd i dynnu'r llun nawr.

S: Ond Marc ...

M: Aros le wyt ti, Sioned, a paid becco, iawn? Mae popeth dan reolaeth. Gad i'r arbenigwr wneud ei waith. Iawn – gwenwch i gyd!

(takes the picture)

Ac un arall ar gyfer ffeiliau'r heddlu ...

(takes another)

Iawn. Unrhyw gwestiynau?

S: Oes, mae 'da fi un cwestiwn bach, Marc. Pam na rodest ti ffilm yn y camera cyn tynnu'r llun?

M: Er ... nes i hynny'n fwriadol, i wneud yn siwr bod chi i gyd yn canolbwyntio. Da iawn, Sioned.

(takes the film from Sioned and loads it)

Nawr 'te, cyn inni fynd ymlaen, mae eisiau symud rhai ohonoch chi, dw i'n meddwl ...

Geirfa

o flaen in front of
coeden (f) tree

rhy' ... **o lawer** much too ...

trefnu organise

anghyfforddus uncomfortable

llawr floor

ar bwys by; near (S)
mamgu grandmother (S)
yn lle instead of
wrth ochor beside
i'r dim just right
dianc escape
ar ôl after
torri ar draws interrupt

paid becco don't worry
dan reolaeth under control
arbenigwr expert
gwenu smile
ffeiliau'r heddlu police files
yn fwriadol on purpose
canolbwyntio concentrate; pay attention

Exercise 5

Cywir neu Anghywir?

- | | |
|--|-----|
| 1 Mae Gerwyn yn eistedd ar bwys Sioned. | C/A |
| 2 Rhaid i Rhodri fod wrth ochor y goeden. | C/A |
| 3 Mae Sioned yn trio dianc. | C/A |
| 4 Fe roddodd Marc ffilm anghywir yn ei gamera. | C/A |
| 5 Mae Elinor yn rhy dal i sefyll lle mae hi. | C/A |
| 6 Yn y diwedd, mae'r gath yn eistedd wrth ochor mamgu. | C/A |

Compound prepositions

Some common prepositions consist of two components – a simple preposition + a noun. The most frequently used are:

ar bwys by; near (S)	o gwmpas around
ar draws across	wrth ochor beside
ar gyfer for	yn erbyn against
ar ôl after	yn lle instead of
o flaen in front of	yn ymyl near

They behave like ordinary prepositions when used with nouns (except that they are not followed by SM), but their personal forms (i.e. when they are used with pronouns) make use of the possessive adjectives ('my', 'your' etc. – Lesson 4). If we take **ar gyfer** as our example, the first thing to notice is that **gyfer** is really **cyfer** – it is only mutated because of **ar**. To get the personal forms, we put the possessive element between the **ar** and the **cyfer**, and **cyfer** will be mutated in accordance with the possessive.

<i>singular</i>	<i>plural</i>
1 ar nghyfer i for me	ar ein cyfer ni for us
2 ar dy gyfer di for you	ar eich cyfer chi for you
3 ar ei gyfer e for him ar ei chyfer hi for her	ar eu cyfer nhw for them

Cyfer here behaves just like any noun after the possessives – review this part of Lesson 4 now if you are uncertain about this.

The mutation patterns will differ depending on the initial letter of the second element. **O flaen** consists of **o°** + **blaen**, and **b-** is not susceptible to AM (3rd person sing. feminine):

<i>singular</i>	<i>plural</i>
1 o mlaen i in front of me	o'n blaen ni
2 o dy flaen di	o'ch blaen chi
3 o'i flaen e o'i blaen hi	o'u blaen nhw

while **ar ôl** has a second element beginning with a vowel, and which may therefore be heard with a prefixed **h-** in 3rd person sing., 1st and 3rd persons plural:

<i>singular</i>	<i>plural</i>
1 ar 'n ôl i	ar ein hôl ni
2 ar dy ôl di	ar eich ôl chi
3 ar ei ôl e ar ei hôl hi	ar eu hôl nhw

Exercise 6

Fill in the gaps from the box:

- Mae Mari yn meddwl _____ pawb yn ei _____ hi.
- Beth _____ hwnna o _____ yr ysgol?
- Rhaid i mi ddweud _____ i yn _____ y syniad.
- Dyw Rhodri ddim yn dod, felly mae Ieuan yn dod yn _____
- Ddes i _____ 'r rhain ar _____ y parti heno.
- Mae'r ffordd o'ch _____ chi _____ gau.

erbyn	â	mod	ar	flaen	ei
fod	blaen	le	herbyn	gyfer	yw

Prepositions heb, dros, drwy

Heb° *without* has the following personal forms in Colloquial Welsh:

<i>singular</i>	<i>plural</i>
1 hebdda i	hebddon ni
2 hebddat ti	hebddoch chi
3 hebddo fe hebddi hi	hebddyn nhw

Dros° *over, for* (when this means *on behalf of*) has the following personal forms:

<i>singular</i>	<i>plural</i>
1 drosta i	droston ni
2 drostat ti	drostoch chi
3 drosto fe drosti hi	drostyn nhw

Drwy° (sometimes **trwy**°) *through* has the following personal forms:

<i>singular</i>	<i>plural</i>
1 drwydda i	drwyddon ni
2 drwyddat ti	drwyddoch chi
3 drwyddo fe drwyddi hi	drwyddyn nhw

Examples:

Peidiwch mynd hebdda i!

Don't go without me!

Pam na gasgli di'r ffurflenni drosto fe?

Why don't you collect the forms for him?

A i lawr i'r siop drostat ti os ti eisiau

I'll go down to the shop for you if you want

Mae'r gwynt 'ma'n mynd yn syth drwyddoch chi, on'd ydy?

This wind goes straight through you, doesn't it?

Another use of heb°

You can use **heb** in Colloquial Welsh to mean **ddim wedi** in the perfect and pluperfect tenses (see above):

Dydyn nhw ddim wedi talu They haven't paid
or: **Maen nhw heb dalu** They haven't paid.

In this variation, what you are really saying is 'They are without paying', i.e. they haven't done it yet.

Doedd hi ddim wedi llofnodi'r siec She hadn't signed the cheque
or: **Oedd hi heb lofnodi'r siec** She hadn't signed the cheque

Exercise 7

Rephrase these sentences using **heb°**:

- 1 Dydy Ioan a Iona ddim wedi ffonio yn ôl.
- 2 Dych chi ddim wedi prynu'r tocynnau, 'te?
- 3 O'n i ddim wedi meddwl am hynny ar y pryd.
- 4 Dyw'r llywodraeth ddim wedi cyhoeddi'r ffigurau.
- 5 Dydy'r bws ddim wedi dod.
- 6 Dw i ddim wedi deall yr un (a single) gair.

dal – 'still'

If you want to say that something is still happening, use:

- yn dal i fod yn** + VN
or **yn dal i** + °VN
Ydyn nhw'n dal i fod yn rhedeg y siop leol?
or **Ydyn nhw'n dal i redeg y siop leol?**
Are they *still* running the local shop?
Mae Siân yn dal i fod yn aros am dacsï
or **Mae Siân yn dal i aros am dacsï**
Siân is *still* waiting for a taxi

Used with an adjective instead of a VN, the constructions is:

- yn dal i fod yn°**
or **(yn) dal yn°**

Mae'r sefyllfa yn dal i fod yn ddifrifol

Mae'r sefyllfa (yn) dal yn ddifrifol

The situation is still serious

Exercise 8

You have been asked to help dig the garden (**palu'r ardd!**). Avert this disaster (**trychineb**) by saying that you are *still* engaged on some other important task.

Example: (eating my breakfast)

– **Yn anffodus, dw i'n dal i fwyta mrecwast**

- 1 doing the washing-up
- 2 tidying the kids' rooms
- 3 busy with the accounts
- 4 trying to get through to Jeremy Beadle
- 5 in bed
- 6 mending the video-recorder

Geirfa

tacluso tidy up	cysylltu â contact; get through to
prysur busy	trwsio mend
cyfrif (-on) account	recordydd fideo video-recorder

'Once', 'twice' etc.

Gwaith (f) is the word for 'time' when talking about how many times something is done. It combines with the numbers (feminine forms where possible): **unwaith** *once*, **dwywaith** *twice*, **tairgwaith** *three times*, **pedairgwaith** *four times*, etc. 'How many times?' is **Faint o weithiau?** or **Sawlgwaith?** and you should also know **weithiau** *sometimes* and **ambell waith** *occasionally, sometimes*. Notice that **weithiau** is mutated, as is generally the rule with adverbs expressing *when* or *how often* something happens; and for the same reason, you are more likely to hear **ddwywaith**, **daigwaith** etc.

Dw i wedi bod fan hyn ddwywaith yn barod heddiw

I've been here twice already today

Mae'r car wedi torri lawr daigwaith wythnos 'ma

The car has broken down three times this week

arfer

This word is used in Colloquial Welsh to express 'usually' (with present tense) or 'used to . . .' (with an imperfect). Either way, the construction is: **bod + yn arfer + VN**:

Mae'r ddwy 'na'n arfer aros yn hwyrach na'r lleill

Those two (f) *usually stay* later than the rest

Oedd mrawd yn arfer chwarae pêldroed cyn iddo dorri ei goes

My brother *used to play* football before he broke his leg

Sgwrs 

Gwyn and Rhys have bumped into each other at the *ffreutur* canteen of the local **Canolfan Hamdden** Leisure Centre, and are appropriately discussing physical fitness. Gwyn is worried about Rhys, and tells him straight (*yn blwmp ac yn blaen*)

GWYN: Wi'n poeni amdanat ti, Rhys.

RHYS: Poeni? Amdana i?

G: Ie. Gwed, nawr – pa mor aml wyt ti'n defnyddio'r stafell ffirwydd?

R: Y stafell ffirwydd? Wel – gad i mi feddwl . . . ddwywaith y mis, wedwn i.

G: Ddwywaith y mis?

R: 'Sw'n i'n meddwl.

G: Bob yn ail wythnos, 'te?

R: Ar gyfartal, ie. Pam?

G: Ti ddim yn meddwl fod ti'n gorwneud pethau, 'te?

R: Wi'n moyn cadw'n heini. Mae nghorff i'n deml.

G: Mae eisiau galw'r adeiladwyr i mewn ar frys, 'te, on'd oes? Teisen arall?

R: Pam lai?

Geirfa

poeni worry

gwed tell (me) (ti-form) (S)

aml often

ffirwydd fitness

wedwn i I would say

'sw'n i'n meddwl I would think

bob yn ail . . . every other . . .

ar gyfartal on average

gorwneud overdo

heini active; fit

teml (f) temple

adeiladwyr builders

teisen (f) cake (S)

Exercise 9

Decide which of the following statements about the conversation above are true, and which are false?

- 1 Rhys has been worrying lately. C/A
- 2 Rhys uses the fitness room twice a month on average. C/A
- 3 Gwyn is convinced that twice a month is too much. C/A
- 4 Rhys's body is important to him. C/A
- 5 Gwyn offers Rhys a cake. C/A
- 6 Rhys says he'd prefer milk. C/A

SPORT-CHWARAEON

at

PENGLAIS CANOLFAN
SPORTS CHWARAEON
CENTRE PENGLAIS

Penglais School
Waunfawr, Aberystwyth

Rhaglen Gwyliau'r Nadolig i Blant

Llun 20 Rhagfyr i Gwener 31 Rhagfyr 1993

10 i 12 o'r gloch y bore £1.00 am 2 awr

DYDDIAD	OED	GWEITHGAREDD
Llun (20 Rhagfyr)	Dan 12	*GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL (Bechgyn a Merched)
Mawrth (21 a 28 Rhagfyr)	Dan 12	PÊL-DROED 5 BOB OCHR
Mercher (22 a 29 Rhagfyr)	I Bob Oed	DISCO RHOLSGLEFRIO (Gellir llogi'r esgidiau)
Iau (23 a 30 Rhagfyr)	Dan 12	*GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL
Gwener (31 Rhagfyr)	Dan 12	PÊL-DROED 5 BOB OCHR (Bechgyn a Merched)

*GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL = Badminton, Tennis Byr,
Tennis Bwrdd, Pel-Fasged, Uni-Hoc, Criced

Ystafell Cadw'n Heini ar gael i blant dros 12 ac oedolion yn ystod yr oriau uchod.

Manylion: Dydd 0970 624818 (Nid adeg Gwyliau)
Nos 0970 615303 (Ar ôl 5.30 pm)

Exercise 10

Look at the activity (**gweithgaredd**) programme on p. 179 and use it to answer the following questions in English:

- 1 What time of the year is the programme for?
- 2 What kind of people is it for?
- 3 How many weeks does it cover?
- 4 When could one play basketball?
- 5 What can adults do during these activities?
- 6 What other activity can children over 12 do, and on what day?

Exercise 11

In the next lesson you will need the possessive adjectives (Lesson 4) again, so you might as well revise them now.

Match the two halves of each sentence:

- | | |
|---------------------------|-------------------------------|
| 1 Mae Sioned wedi colli | (a) 'u llyfrau yn ôl |
| 2 Dych chi heb dalu | (b) ngherdyn aelodaeth gartre |
| 3 Maen nhw heb ddod â | (c) dy fenig |
| 4 Ti 'di cwmpo | (d) ei harian rhywle yn y dre |
| 5 Mae Dafydd wedi gwerthu | (e) 'ch tâl aelodaeth |
| 6 Dw i wedi gadael | (f) 'i dŷ o'r diwedd |

Geirfa

cwmpo fall; drop
aelodaeth (f) membership
maneg (**menig**) (f) glove

tâl fee; payment
o'r diwedd at last

Yr ieithoedd Celtaidd – the Celtic languages (II): y dyfodol – the future

As **ieithoedd lleiafrifol** *minority languages*, all the Celtic languages are in danger of their lives, in an age where **cyfathrebu electronig** *electronic communications* have raised the **statws** *status* and increased the **dylanwad** *influence* of English (and a few other languages) throughout most of the world. Welsh, at least, has proved remarkably resilient in the face of this almost overwhelming linguistic and cultural competition, and is today by far the strongest and most viable of the Celtic languages – it is the language of a clearly

defined **cymuned** *community*, and within that community it functions as the primary means of communication in practically all aspects of **bywyd beunyddiol** *everyday life*. The same is broadly true of Scots Gaelic, which benefits in this respect from the relative geographic isolation of the Western Isles, a situation that probably enhances the sense of a separate community, and hinders the encroachment of English. And it is no **cyd-ddigwyddiad** *coincidence* that the least anglicised parts of **y Fro Gymraeg** *the Welsh-speaking heartlands* also tend to be in remoter or more inaccessible areas. The fortunes of Welsh and Scots Gaelic have taken an upturn in the last twenty years, with a more general awareness of the cultural heritage that the languages represent. In Wales, attendances at adult language classes everywhere are on the increase – in many regions permanently oversubscribed.

The language is being given a good start among the very young by means of an effective if underfunded **rhwydwaith** *network* of **ysgolion meithrin** *nursery schools* (singular **ysgol feithrin**), which give pre-school age children from both Welsh- and English-speaking homes the all-important early grounding in the language. In the school system, Welsh is now an integral part of the National Curriculum, and in areas with a high proportion of Welsh speakers most **ysgolion cynradd** *primary schools* teach mostly **trwy gyfrwng y Gymraeg** *through the medium of Welsh*. This policy aims at enabling every child to be **dwylieithog** *bilingual* by the time he or she enters the **ysgol uwchradd** *secondary school*, and the proven **manteision** *advantages* of **dwylieithrwydd** *bilingualism*, especially in learning **ieithoedd estron** *foreign languages* later on, no doubt account in part at least for the overwhelming support for this educational policy among Welsh- and English-speaking families alike. Outside the school system, there is a vigorous Welsh-language publishing industry, and a popular radio and TV channel. A Welsh-language film was nominated recently for an Oscar for Best Foreign Language Film. **Ar y cyfan** *on the whole*, it is probably fair to say that the prospects for Welsh (and Scots Gaelic) are looking better now than they have done for a hundred years.

Irish and Breton are in a more precarious position. Irish was dealt an almost mortal blow by the Famine of the nineteenth century, when many native speakers lost their lives and many more were forced into exile in the New World. The drastic decline in numbers that this engendered is probably now unstoppable, despite wide-ranging and enthusiastic government support for the language in the Republic. Then again, there has been a notable resurgence of

interest in the language in recent years, particularly in the North and this gives, for the first time in many decades, grounds for optimism. Breton, on the other hand, has a large number of speakers (perhaps even more than Welsh), but suffers hostility from central government, which has made determined and undisguised efforts to eradicate the language. The future of these two languages is very *fantol in the balance*.

As for Cornish and Manx, their fate has already been decided once: Cornish died out some time in the late eighteenth century while the presumed last native speaker of Manx, Ned Maddrell, died as recently as 1974. Yet today these languages are heard again, not, of course, in exactly the same form as before – while Manx is at least of such recent demise that there are electronic recordings of how it sounded, the restoration of Cornish has presented a more testing problem – but as living languages nonetheless. Both are taught in schools, and both are beginning to experience the birth-pangs of revival. The road will doubtless be a long and wearisome one for them, but the hope of those who wish to see them revived as living community languages (as has already been achieved with Israeli Hebrew) is perhaps not as far-fetched now as it might have seemed even a mere twenty years ago.

13 Dyma'r penaw-dau diweddara

Here are the latest headlines

In this lesson you will learn how to:

- say that something *was done*
- say 'myself', 'yourself' etc.
- make adverbs from adjectives

Pigion o'r newyddion ●●

Fe gafodd tri o ddynion eu harestio neithiwr ar ôl i'r heddlu gael eu galw i dafarn yng nghanol y dre. Dywedodd llefarydd dros yr heddlu y bore 'ma fod dau ddyn wedi cael eu cyhuddo o fod yn feddw mewn lle cyhoeddus, ac y bydd un arall yn cael ei gyhuddo rywbryd heddiw o ymosod ar heddw.

Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi gan y llywodraeth heddiw yn dangos fod y mwyafrif llethol o rieni di-Gymraeg yn y sir o blaid addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant. Bydd ystadegau'n cael eu rhyddhau yfory i ddangos yn union pa ganran o blant y sir sy'n cael eu dysgu'n bennaf trwy'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd.

Fe gafodd tri o bobol eu hanafu'n ddifrifol mewn damwain car ar y ffordd rhwng Abersoch a Phwllheli y bore 'ma. Roedd rhaid i un ohonyn nhw aros am hanner awr cyn iddi gael ei rhyddhau o'r car gan y gwasanaethau brys. Roedd y ffordd ar gau trwy gydol y bore, ond fe gafodd ei hailagor amser cinio.

Mae deugain o bobol wedi cael eu diswyddo o ffatri ddillad ar ymylon y dre. Honnodd rheolwr y ffatri, Mr J Williams, fod y cwmni wedi cael ei daro'n ddifrifol gan yr hinsawdd economaidd yn ddiweddar, ac fe gadarnhaodd y bydd y cwmni yn cael ei roi yn nwylo'r derbynwyr erbyn diwedd yr wythnos. Bydd gweithwyr mewn ffatrioedd eraill yn Lloegr hefyd yn cael eu diswyddo, meddai.

Ac yn ola, mae merch fach saith oed o Laneglwys wedi cael ei gwobrwyo gan Frigâd Dân y dre am ei dewrder wrth achub ei brawd pedair oed, funudau cyn i'w tŷ gael ei losgi'n ulw ddiwedd mis Tachwedd. Fe geith Mari ap Owain ei chyflwyno i'r Prif Swyddog Tân yfory i dderbyn tystysgrif a medal, ac fe fydd hi a'i theulu a ffrindiau'n cael eu gwahodd i barti Nadolig Maer y dre wythnos nesa.

Geirfa

pigion selections	anafu injure
llefarydd spokesman, spokeswoman	ailagor reopen
cyhuddo accuse; charge	diswyddo sack, fire
ymosod (ar) attack	ymylon outskirts
adroddiad report	honni claim
mwyafrif majority	hinsawdd climate
lletiol overwhelming	cadarnhau confirm
sir (f) (Welsh) county	derbynwyr receivers
o blaid in favour of	meddai he (/she) said
addysg (f) education	gwobrwyo give an award/prize to
cyfrwng medium (noun)	dewrder bravery
ystadegau statistics	achub save, rescue
rhyddhau release	llosgi burn
canran percentage	ulw ashes
yn bennaf mainly	cyflwyno present (vb)
	tystysgrif (f) certificate

Passive sentences

A sentence like 'The boy threw the snowball' is an active sentence, because the subject ('the boy') is doing the action ('threw'). If we turn it round and say 'The snowball was thrown by the boy', we have a passive sentence, because the subject ('the snowball') is the recipient of the action.

In Colloquial Welsh, passive sentences use **cael** get – 'the snowball was (or: got) thrown' is phrased as 'the snowball got its throwing':

Fe gafodd y bêl eira ei thafu

From this it should be clear that the basic construction for passives is:

cael + possessive adjective + VN

and the VN will be subject to mutations depending on which

possessive precedes it – review Lesson 4 if you wish to refresh your memory on this.

Taking **tal** pay as an example, we can see how the past-tense passive will look for all persons:

ges i nhalu	I was paid
gest ti dy dalu	you were paid
gaeth e ei dalu	he was paid
gaeth hi ei thalu	she was paid
gaethon ni 'n talu	we were paid
gaethoch chi 'ch talu	you were paid
gaethon nhw eu talu	they were paid

Remember the various alternative forms for the preterite of **cael** – **gafodd** for **gaeth**, **gawson** for **gaethon**, etc. – that you are just as likely to hear depending on the area.

Other tenses of the passive are simply done using the appropriate tense of **cael** – nothing else in the construction changes:

dw i'n cael nhalu	I am paid
fydda i'n cael nhalu	
or ga i nhalu	I'll be paid
dw i wedi cael nhalu	I have been paid

If you need to specify who the action was done *by*, use **gan** (and remember that it has special personal forms – Lesson 6):

Fe gafodd y bêl eira ei thafu gan y bachgen

Exercise 1

Turn these active sentences into passives.

Example:

Stopiodd yr heddlu ein bus

The police stopped our bus

– **Gaeth ein bus ei stopio gan yr heddlu**

Our bus was stopped by the police

- 1 Mae'r plant yn golchi'r car.
- 2 Dorrodd y lleidr ffenest y gegin.
- 3 Gohiriodd y cadeirydd y cyfarfod.
- 4 Bydd y trysorydd yn cyhoeddi'r ffigurau nes ymlaen.
- 5 Bydd Eleri'n canu'r gân 'ma yfory.
- 6 Mae Rhodri'n paratoi'r bwyd ar hyn o bryd.

Note: An alternative way of forming the passive, using endings instead of **cael**, is the norm in the media and in Literary Welsh – this will be dealt with in Lesson 15.

Stative passives

These correspond to simple past participles in English, used either as adjectives:

a *broken* window
an *unopened* letter

or as a complement of the verb 'to be':

this window is *broken*
this letter is *unopened*

Welsh does not have true participles, but takes these expressions for what they are: stative passives (where the state is the result of a previous action). If we look first at a *dynamic* passive:

(pres.) **Mae'r ffenest yn cael ei thorri**
(pret.) **Gaeth y ffenest ei thorri**
(perf.) **Mae'r ffenest wedi cael ei thorri**

we see, of course, some form of **cael** in each case. The **cael** serves to indicate the fact that a dynamic action has occurred or is occurring. When we look at a window that *has been* (**wedi cael**) broken already (the third example above), that action has already happened (it could have happened years ago), so in this case the action indicator (**cael**) is removed, so that

Mae'r ffenest wedi ei thorri
The window has been broken

becomes

Mae'r ffenest wedi ei thorri
The window is broken

Notice that the possessive + VN remain, and that mutation of the VN will still depend on the gender and number of the noun in question – 'a broken table' will be **bwrdd wedi ei dorri**, because **bwrdd** is masculine. The possessives are usually shortened in writing after **wedi**: **wedi'i thorri**, **wedi'i dorri**, **wedi'u torri** etc.

heb in stative passives

Heb is used in exactly the same way as **wedi** in stative passives, but to correspond to 'un- . . .', i.e. to indicate a state where something has *not* happened – for 'an unopened letter' we say 'a letter *without its opening*' **llythyr heb ei agor**. Further examples:

nofel heb ei chyhoeddi	an unpublished novel
siec heb ei llofnodi	an unsigned cheque
siec heb ei llenwi	a blank cheque (. . . without its filling')
problem heb ei datrys	an unsolved problem
swyddog heb ei ethol	an unelected official

Exercise 2

Cyfieithwch i'r Gymraeg

- This parcel is badly wrapped.
- I have three undelivered letters here.
- The garage roof is mended now.
- This bill is still unpaid.
- I'd rather read a book aimed at native Welsh speakers.
- The mistakes are all underlined.

Geirfa

anelu (at) aim	lapio wrap
dosbarthu deliver	tanlinellu underline
gwall (-au) mistake	trwsio mend, repair

Special uses of newydd

In ordinary **wedi**- tenses (of which we have encountered the perfect and pluperfect – Lesson 12), you can replace the **wedi** by **newydd** to indicate that the event has just happened. Compare:

Mae'r trydanwr wedi mynd	The electrician has gone
Mae'r trydanwr newydd fynd	The electrician has just gone
Maen nhw wedi cyrraedd	They've arrived
Maen nhw newydd gyrraedd	They've just arrived

In stative passives, **newydd** + possessive + VN is used to indicate a situation that has only recently come about: **siop newydd ei hagog** *a recently opened shop*; **ffigrau newydd eu datgan** *recently released figures*.

Sgwrs

- ALED: Ti 'di clywed am Eifion?
 BRUCE: Naddo - dw i newydd ddod yn ôl o Gaerfyrddin puawn 'ma. Beth sy wedi digwydd?
 A: Gafodd e ei stopio gan yr heddlu bore 'ma.
 B: Do? Pam? Oedd e'n gyrru'n rhy gyflym fel arfer?
 A: Nag oedd, nag oedd - doedd un o'r goleuadau cefn ddim yn gweithio, a 'na pam stopion nhw fe.
 B: Wel, a bod yn onest, meddwl dw i y dylai'r heddlu dreulio'u hamser yn mynd ar ôl troseddwy'r go iawn yn hytrach nag erlid pobol diniwed fel Eifion . . .
 A: Ie . . . ond pan edrychon nhw ar ei ddogfenni, fe welon nhw fod y car heb ei yswirio, a hynny ers wyth mis!
 B: Wel, mae hynny'n warthus, rhaid i mi ddweud.
 A: Cytuno'n llwyr. Mae cyfrifoldeb arnon ni i gyd i wneud yn siwr bod ni'n gyrru'n gyfreithlon, on'd oes?
 B: Oes. Ei roi yn y carchar am fis neu ddau sy eisiau.
(takes out his own documents)
 Edrych fan hyn, Aled . . . popeth fel y dylai fod.
 A: *(has a casual look)*
 Popeth ond yr yswiriant, ti'n meddwl.
 B: Beth!?
 A: *(has another, closer look)*
 Ac mae'r drwydded yrru heb ei harwyddo. Ac mae'r dreth yn ddyledus ers tair wythnos . . .
 B: Well i mi fynd, Aled. Mae'r swyddfa bost yn cau am bump.

Geirfa

Caerfyrddin Carmarthen
golau (pl. **goleuadau**) light
mynd ar ôl go after; chase
troseddwr (-wyr) criminal
go iawn real; genuine
yn hytrach na rather than

gwarthus disgraceful
cyfrifoldeb responsibility
cyfreithlon legal
ei roi . . . sy eisiau he needs putting
carchar prison
trwydded (f) licence

erlid persecute
diniwed harmless
yswirio insure

arwyddo sign (vb)
treth (f) tax
dyledus due

Exercise 3

Cywir neu Anghywir?

- Oedd y treth ar gar Eifion heb ei thalu. C/A
- Doedd dim goleuadau cefn yn gweithio ar gar Eifion. C/A
- Oedd Bruce wedi bod yng Nghaerfyrddin. C/A
- Cafodd Eifion ei roi yn y carchar am fis. C/A
- Doedd dim dogfenni 'dag Eifion pan stopiodd yr heddlu fe. C/A
- Doedd Bruce ddim wedi llofnodi'i drwydded. C/A

Sydd) - 'who/which is/are'

In English we have special relative pronouns 'who'/'that' (for persons) and 'which'/'that' (for things) that relate back to a previously mentioned item:

This is the man *who* tunes our piano for us
 I've lost the instructions *that* come with this machine

Where, as in the above examples, a present tense follows the relative pronoun in English, Welsh uses a special *present tense relative* form of the verb **bod** that does the work of the relative as well as the verb. In speech it is usually **sy**, but in writing you will often encounter it as **sydd**. It takes the place of the ordinary present tense when the relative pronouns are required in English.

Mae'r dyn ma'n trwsio'n ffôn ni
 This man *is mending* our phone
Dyma'r dyn sy'n trwsio'n ffôn ni
 This is the man *who is mending* our phone

Maen nhw'n siarad yr iaith yn rhugl
 They *speak* the language fluently
Dyna'r bobol sy'n siarad yr iaith yn rhugl
 Those are the people *who speak* the language fluently

Mae'r cyfarwyddiadau'n dod gyda'r peiriant
 The instructions *come* with the machine

Wi ddim yn deall y cyfarwyddiadau sy'n dod gyda'r peiriant

I don't understand the instructions *which come* with the machine

The same substitution occurs with 'who *has* . . . (done something)' etc., because this also involves the present tense of **bod** (+ **wedi**) in Welsh:

Mae'r parseli wedi cyrraedd

The parcels *have arrived*

Dyma'r parseli sy wedi cyrraedd

These are the parcels *which have arrived*

Sy is also used in place of **mae** after the question-words **Pwy . . . ?** *Who . . . ?*, **Beth . . . ?** *What . . . ?* and **Faint . . . ?** *How many . . . ?* when these are the *subject* of the sentence:

Pwy sy wedi bod yn eistedd ar nghadair i?

Who's been sitting on my chair?

Exercise 4

Turn these ordinary sentences into relative ones using **Dyma . . .**

Example: Mae'r ferch 'ma'n siarad Cymraeg
– **Dyma'r ferch sy'n siarad Cymraeg**

- 1 Mae'r bobol 'ma wedi dod i'ch gweld chi.
- 2 Mae'r ddynes 'ma'n gofalu am y plant bob Nos Wener.
- 3 Mae'r fath beth yn tueddu digwydd.
- 4 Mae'r anifail 'ma'n sâl.
- 5 Mae'r car 'ma wedi torri i lawr.
- 6 Mae'r teulu 'ma wedi prynu'r tŷ drws nesa.

How to say 'myself', 'yourself' etc.

'Self' is **hunan** (singular), **hunain** (plural) in S areas, **hun** (singular or plural) in N areas. It combines with the possessive adjectives:

	South		North
sing. 1	'n hunan	myself	'n hun
2	dy hunan	yourself	dy hun
3m	ei hunan	himself	ei hun
3f	ei hunan	herself	ei hun

	South		North
plur. 1	ein hunain	ourselves	ein hun
2	eich hunan	yourself	eich hun
	eich hunain	yourselves	eich hun
3	eu hunain	themselves	eu hun

Pam na ddewch chi'ch hun?

Why don't you come yourself(/yourselves)?

Pwylla, neu fyddi di'n brifo dy hunan!

Careful now, or you'll hurt yourself!

Mae'n debyg bydda i'n gorfod ffonio fo 'n hun

I'll probably have to phone him myself

Gwnewch eich hunain yn gartrefol

Make yourselves at home

How to say 'on my own' etc.

The forms for 'self' are used with **ar ben** in Colloquial Welsh to mean *on . . . own*:

ar ben 'n hunan	on my own
ar ben dy hunan	on your own
ar ben ei hunan	on his own
ar ben ei hunan	on her own
ar ben ein hunain	on our own
ar ben eich hunan	on your own (singular)
ar ben eich hunain	on your own (plural)
ar ben eu hunain	on their own

These are the usual forms in S areas. In the N, one form **hun** does the job of both **hunan** and **hunain**. In more formal Welsh you may come across versions with a possessive before **pen**, and consequent mutations, e.g. **ar ei phen ei hunan** *on her own*.

Turning adjectives into adverbs

You can make adverbs from adjectives (like adding '-ly' in English) by putting **yn** before the adjective:

pendant definite	yn bendant definitely
araf slow	yn araf slowly

cyflym quick	yn gyflym quickly
trwm heavy	yn drwm heavily
agored open	yn agored openly
mawr big; great	yn fawr greatly

The same principle applies with the comparative, whether the **-ach** or the **mw** (Lesson 11) type:

arafach slower	yn arafach more slowly
mw cyfforddus more comfortable	yn fwy cyfforddus more comfortably

Exercise 5

Unscramble the following sentences:

- 1 dre ei cael newydd hagar yn wedi mae llyfrgell y
- 2 hyn chi eich fan dych ben ? hun ar
- 3 wedi popeth barod mae 'i yn drefnu
- 4 'ma wi hunan y moyn 'n 'n gwaith gwneud
- 5 eu docyn 'r dal gwerthu heb mae 'ma ddau yn
- 6 'i 'ch wedi chi ydy ? 'to teledu drwsio

Bron – 'almost'

To say 'I almost/nearly (did something)', use **Oedd bron i mi + VN**:

Oedd bron iawn i mi syrthio	I very nearly fell
Oedd bron i'r plant gollir bws	The children almost missed the bus
Oedd bron i Mererid fynd hebddon ni	Mererid almost went without us

'Almost . . . -ing' is **bron â** (optional AM; **ag** before vowels):

Oedd hi bron â llefain	She was almost crying (S)
Oedd hi bron â chrio	She was almost crying (N)

Prin – 'hardly', 'scarcely'

This is usually followed by a 'that'-clause (Lesson 11):

Prin y gallen ni ganiatáu hynny We could hardly allow that

With the present tense of **bod**, the 'that'-clause is optional:

Prin bo fi'n cofio fe nawr
or **Prin dw i'n cofio fe nawr** I hardly remember him now

How to translate 'become'

There is no verb directly corresponding to 'become' in Colloquial Welsh – instead the usual way of expressing a change of state is with **mynd + ynⁿ**:

Mae Sioned yn mynd yn grac
Sioned's getting cross
Mae'r peth 'ma wedi mynd yn wyrdd
This thing has gone green

Sometimes **ddod ynⁿ** is used, particularly where the change of state is viewed subjectively:

Mi ddaw'n amlwg cyn hir
It will soon become clear

Another way of saying 'want to . . .'

Instead of using **eisiau/moyn** (Lesson 6), it is possible in Colloquial Welsh to use **amⁿ + VN** to mean 'want to (do something)':

Wi am drafod hyn 'da ti ymhellach ar ddiwedd y noson
I want to discuss this further with you at the end of the evening
Pwy sy am redeg y stondin teganau eleni?
Who wants to run the toy stall this year?

Exercise 6

Convert these 'want' sentences from **eisiau/moyn** to **am**, or vice versa:

Example: **Wi'n moyn talu â siec**
– **Wi am dalu â siec**

- 1 Dan ni cisiau gweld y dogfenni i gyd cyn penderfynu
- 2 O'n i am wneud yn siwr fod pawb yma (– **moyn**)
- 3 Dych chi'n moyn casglu'r papurau ar y ffordd adre?
- 4 Maen nhw am ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu (– **eisiau**)

- 5 Bydd Islwyn yn moyn cyfweld â'r ymgeiswyr yn fuan
6 Dwi eisiau dileu 'n enw i o'r rhestr

Geirfa

dogfen (-ni) (f) document	cyfweld â interview
casglu collect	ymgeiswyr (pl.) applicants
datblygu develop	yn fuan soon
cyfathrebu communicate	dileu delete, remove

Feminine and plural forms of adjectives

Some adjectives have different forms for use with feminine nouns. The most common in Colloquial Welsh are (feminine forms in brackets):

gwyn (gwen) white	byr (ber) short
gwyrd (gwerdd) green	trwm (trom) heavy
melyn (melen) yellow	tlws (tlos) pretty
crwn (cron) round	cry (f) (cre(f)) strong

So we say, for example, **nodyn byr** a short note but **stori fer** a short story; **crys gwyrd** a green shirt but **ffrog werdd** a green dress.

In the older language, many adjectives had plural forms for use either with plural nouns or as nouns in their own right. Nowadays only a very few adjectives do this routinely, of which by far the most common are (plural forms in brackets) **arall** (eraill) other, **ifanc** (ifainc) young, and **bychan** (bychain) small. But plural formations (mostly in -ion) are found with other adjectives when they are used as nouns: **(cyfoethog) y cyfoethogion** the rich; **(marw) y meirw/meirwon** the dead; **(dall) y deillion** the blind.

You will also occasionally come across plural adjectives in set expressions – in Wales, listen for **gwyntoedd cryfion** strong winds on the weather forecasts!

Exercise 7

Pair off the adjectives:

ysgafn	drwg
du	hyll
poeth	trwm

hapus	gwyn
tlawd	gwan
cryf	cymbhleth
newydd	trist
crwn	petryal
perygus	cas
golygus	hawdd
diflas	cyfoethog
caedig	hen
da	diogel
syml	diddorol
anodd	oer

Which two were already paired off?

Y tafodieithoedd – the dialects (I)

Like most languages, Welsh comes in a variety of distinct, though similar, dialects. Terrain plays an appreciable part in whether speakers from one area have an **acen wahanol** different accent or use **geiriau gwahanol** different words from those in another. **Mynydd-dir** mountainous country – and there is plenty of that in Wales – hinders **cyfathrebu** communications (this has at least been true until **oes y cyfryngau torfol** the age of the mass-media) and so encourages the natural process of linguistic change, because speakers from different **cymunedau** communities do not get the chance to influence each other's speech.

